



Cyfarfod

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD IAU, 12FED EBRILL, 2018

Lleoliad

Siambwr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH

Pwynt Cyswllt

**Sion Owen
01286 679665**

(Dosbarthwyd 4/4/18)

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

AELODAETH (15)

Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Annwen Daniels
Nia Wyn Jeffreys
Linda Ann Jones
Catrin Wager

Annwen Hughes
Charles Wyn Jones
Olaf Cai Larsen

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Dylan Bullard
Anne Lloyd Jones
Hefin Underwood

John Brynmor Hughes
Dewi Wyn Roberts

Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Anwen J. Davies

Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Dewi Owen

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

I nodi unrhyw eitemau sydd yn fater o frys yn nhyb y cadeirydd er mwyn eu hystyried.

4. COFNODION

5 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig fod cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 26/10/17, yn cael eu harwyddo fel rhai cywir.

5. DARPARIAETH DECHNEGOL

9 - 13

Ystyried y ffordd ymlaen ar gyfer darpariaeth technegol i Aelodau

6. YMHOLIADAU GAN AELODAU

14 - 15

Diweddarau'r Pwyllgor o'r datblygiadau ym maes ymateb i ymholiadau gan Aelodau

7. PROTOCOL AELODAU-SWYDDOGION

16 - 24

Mae'r Pwyllgor Safonau yn adolygu'r Protocol Cysylltiadau Aelod Swyddog a'r pwrpas yw ceisio adborth ar y cynnwys er adrodd yn ôl.

8. HYFFORDDIANT AELODAU

25 - 36

Adroddiad yn manylu ar drefniadau a chynnydd ym maes hyfforddiant Aelodau.

9. ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

37 - 46

Cyflwyno drafft o'r adroddiad a fydd i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn ym mis Mai 2018 yn amlinellu'r gefnogaeth sydd wedi ei ddatblygu ac wrthi'n cael ei ddatblygu ar gyfer aelodau.

10. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL AELODAU ETHOLEDIG

47 - 50

Ceisio barn y Pwyllgor ar ddewisiadau gyda chydabyddiaeth ariannol i Aelodau Etholedig.

11. ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU

51 - 55

Gwybodaeth ar gyfer cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol Aelodau Etholedig ar gyfer 2017/18.

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD DYDD IAU, 26 HYDREF 2017

YN BRESENNOL: Dewi Wyn Roberts (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr: Dylan Bullard, Anwen J. Davies, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Nia Wyn Jeffreys, Anne Lloyd Jones, Charles Wyn Jones, Linda Ann Jones, Olaf Cai Larsen, Dewi Owen a Catrin Wager

SWYDDOGION: Vera Jones (Rheolwr Aelodau - Gwasanaeth Democrataidd) a Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol) a Siôn Owen (Swyddog Cefnogi Aelodau)

YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Annwen Daniels a Hefin Underwood

1. YMDDIHEURIADAU

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYD

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2017 fel rhai cywir.

5. MATERION YN CODI GAN AELODAU

Derbyniwyd cyflwyniad byr gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn nodi fod materion wedi codi gan Aelodau'r Cyngor mewn nifer o fforymau. Rhoddwyd cyfle i'r Pwyllgor rannu eu sylwadau ar y materion oedd wedi codi yn eu rôl wrth gynorthwyo i ddatblygu gwasanaethau i Aelodau.

Lleoliadau Cyfarfodydd

Nodwyd fod sylwadau wedi eu derbyn fod teithio i wahanol gyfarfodydd yng Nghaernarfon yn cymryd llawer o amser yr Aelodau.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:-

- Annog defnyddio ystafelloedd cyfarfod y Cyngor ym Mhenrhyndeudraeth.
- Annog defnyddio technoleg er mwyn hwyluso mynychu cyfarfodydd o bell, gan alluogi Aelodau i gymryd rhan gyflawn yn y cyfarfod.
- Dylai'r Pwyllgor hwn gymryd rôl arweiniol wrth ddatblygu'r dechnoleg a threfniadau angenrheidiol.
- Nodwyd pwysigrwydd cysylltiad band eang cadarn ar draws y sir er mwyn sicrhau llwyddiant.
- Fod cadeirio mewn cyfarfod sydd ag elfen o fynychu o bell yn brofiad gwahanol, ac

- anos o gymharu â chyfarfod ble mae'r mynychwyr i gyd mewn un ystafell.
- Fod sefydliadau eraill eisoes yn defnyddio technoleg megis 'Skype' er mwyn dod a staff sydd mewn lleoliadau gwahanol at ei gilydd, gyda'r diwylliant sefydliadol yn newid o'r herwydd.
- Fod angen cofio am anghenion gweddarlledu cyfarfodydd wrth weithio ar fynychu o bell.

Mewn ymateb nododd y Pennaeth Gwasanaethau Democritaidd mai megis dechrau'r daith mae'r Cyngor o ran defnyddio technoleg i hwyluso cynnal cyfarfodydd gydag elfennau o fynychu o bell.

Cysylltu ag Adrannau, gwybodaeth a chyfathrebu gan Adrannau a Chyhoeddi cyfeiriadau Aelodau ar y we

Nodwyd fod rhai Aelodau yn anhapus oherwydd bod datblygiadau wedi digwydd yn eu wardiau heb i'r Aelodau gael eu hysbysu. Nodwyd hefyd fod pryder wedi codi ynglŷn â'r manylion personol oedd yn cael ei gyhoeddi ar y we.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:-

- Amlygwyd pwysigrwydd cyfathrebu rhwng Adrannau ac Aelodau, nodwyd fod angen datblygu meddylfryd o gyfathrebu, yn enwedig mewn wardiau dau Aelod.
- Nodwyd fod Rhaeadr ar gael ar y Porth Aelodau, gyda darparu gwybodaeth i'r Aelodau fel rhan o'i bwrpas.
- Canmolwyd y ganolfan gyswllt am ymateb yn broffesiynol i ymholiadau Aelodau.
- Fod cyhoeddi manylion personol ar y we yn rhan o'r swydd, ac yn gymorth i'r cyhoedd i gysylltu gyda'u cynghorydd.

Mewn ymateb bu i'r Pennaeth Gwasanaethau Democritaidd annog Aelodau i rannu enghreifftiau penodol o'u profiadau o ddiffyg cyfathrebu er mwyn deall y sefyllfa go iawn a rhoi sylw pellach i'r materion a godwyd.

6. CYFWELIADAU DATBLYGU PERSONOL

Nodwyd fod cyfweiliadau datblygu personol wedi eu cynnal gydag Aelodau er mwyn adnabod eu hanghenion datblygu. Cynhaliwyd 10 cyfarfod, gyda'r materion canlynol wedi eu hamlygu:

- Fod tipyn o waith cyfarwyddo gyda'r Cyngor a'i ddiwylliant i'r Aelodau newydd, yn enwedig trefniadau cyfansoddiadol a'r ffordd oedd y Cyngor yn gweithio.
- Fod dryswch yn aml ynglŷn â'r pwynt cyswllt cywir ar gyfer materion ble mae'r Aelodau angen cysylltu â swyddogion y Cyngor, a bod angen sicrhau fod y manylion ar y Porth Aelodau yn gywir a chyfredol.
- Fod angen parhau i gynnig hyfforddiant a chyfleon datblygu amrywiol i'r Aelodau.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:-

- Fod angen bod yn ymwybodol fod gan Aelodau swyddi ac ymrwymadau eraill wrth drefnu cyfarfodydd a sesiynau datblygu.
- Mewn ymateb i ymholiad, nodwyd nad oedd yno elfen gwerthuso perfformiad yn rhan o'r cyfarfodydd datblygu personol.
- Y byddai'n fuddiol rhoi cymorth i Aelodau newydd ar waith Ward, a hynny cyn gynted â phosib wedi iddynt gael eu hethol.
- Fod problemau yn codi gyda'r dyfeisiadau electronig a ddosbarthwyd i'r Aelodau i'w cynorthwyo gyda'u gwaith.

Mewn ymateb nododd y Rheolwr Gwasanaethau Democritaidd y byddai sesiynau

ychwanegol i'r sesiwn a gynhaliwyd ar Fedi 10fed yn cael eu cynnal ar faterion yn ymwneud a'r Pwyllgorau. Byddai cyfarfodydd datblygu personol hefyd yn parhau i gael eu cynnig i'r holl Aelodau er mwyn eu cynorthwyo gyda'u datblygiad personol. Byddai'r Gwasanaeth Democratiaeth yn edrych ar ddulliau amgen o gynnal sesiynau datblygu i Aelodau.

Nododd y Pennaeth Gwasanaethau Democritaidd fod unigolion gwahanol yn dysgu trwy ddulliau gwahanol ac y byddai hynny yn cael ei ystyried wrth gynllunio cefnogaeth i Aelodau tua'r dyfodol.

PENDERFYNWYD:

1 - Cynnull is-grŵp o Aelodau'r Pwyllgor hwn er mwyn cynorthwyo gyda datblygiad y Porth Aelodau ac arbrofi gyda dulliau amgen o gynnal cyfarfodydd a hyfforddiant. Penodwyd y Cynghorwyr Annwen Hughes, Nia Jeffreys a Dewi Roberts i'r is-grŵp.

2 - Fod holiadur yn cael ei ddosbarthu i'r holl Aelodau er mwyn gweld ble'r oedd problemau gyda'r offer TG, gyda'r canlyniadau i'w cywain mewn adroddiad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn.

7. PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL - YMGYNGHORIAD

Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor hwn ar y cyd â'r Rheolwr Gwasanaethau Democritaidd yn trafod ymgynghoriad y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Prif argymhellion y Panel oedd fod cyflog sylfaenol Aelodau yn cynyddu o £200 (1.49%) yn 2018/19, fod y trefniant o alluogi dwy haen o gyflog uwch i Aelodau Cabinet a Chadeiryddion Pwyllgorau yn dod i ben, a bod anogaeth i'r rhai sy'n gymwys i hawlio ad-daliadau am gostau gofal. Gwahoddwyd sylwadau'r Pwyllgor.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:-

- Oedd yna bosibilrwydd na fyddai Aelodau yn gorfod pleidleisio dros eu cyflogau eu hunain?
- Fyddai posib cynnwys bocs pwrpasol ar gyfer hawlio ad-daliadau gofal ar y dudalen berthnasol o fewn y system Hunanwasanaeth?

Mewn ymateb nododd y Rheolwr Gwasanaethau Democritaidd y byddai diddymu'r ddwy haen o gyflogau uwch yn golygu na fyddai angen pleidlais ar lefelau cyflogau Aelodau i'r dyfodol. Penderfyniad i'r Aelodau'n unigol fyddai i dderbyn y cyflog oedd ar gael neu gyfran ohono. Nododd y Pennaeth Gwasanaethau Democritaidd mai dim ond un awdurdod oedd wedi manteisio ar y gallu i gyflwyno dwy haen o gyflog uwch. Anogodd yr aelodau oedd yn gymwys i wneud hynny, i hawlio'r ad-daliad costau gwarchod, er mwyn eu galluogi i gymryd rhan lawn.

PENDERFYNWYD: derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad fel ymateb i'r ymgynghoriad.

8. DATA AMRYWIAETH

Cyflwynwyd - Data Amrywiaeth yn unol â chais y Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar 11eg o Orffennaf 2017. Dengys y wybodaeth fod gwaith yr Is-Grŵp Amrywiaeth mewn Democratiaeth wedi dwyn ffrwyth i raddau, a bod lle i wella.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:-

- Awgrymwyd, er mwyn codi ymwybyddiaeth ymysg disgyblion ysgol, fod peilot o ddigwyddiad hyrwyddo yn cael ei gynnal gan wahodd disgyblion ysgol o Wynedd i gymryd rhan.
- Nodwyd ei fod yn bwysig tynnu'r gymuned i mewn i drafodaethau a gweithgareddau.
- Fod cyswllt rhwng y cyflog sydd ar gael a phroffil oedran Aelodau: Fod unigolion sy'n agos neu wedi ymddeol yn fwy tebygol o sefyll i fod yn gynghorwyr gan nad yw'r cyflog yn ffactor hanfodol iddynt. Ar y llaw arall nodwyd fod y cyflog sydd ar gael i Aelodau yn eithaf deniadol i fyfyrwyr, ac mai unigolion sydd mewn cyflogaeth neu yn magu teulu sydd lleiaf tebygol o sefyll mewn etholiad.
- Fod darpariaeth Gwynedd i Aelodau yn ymddangos gyda'r gorau.

Mewn ymateb, adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd bod cynrychiolwyr y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi datgan yn ddiweddar bod cyflog Aelod Etholedig wedi ei seilio ar wythnos waith o 21 awr. Cyfeirwyd hefyd at y Papur Gwyn ar Lywodraeth Leol sydd yn yr arfaeth gan y Cynulliad, ac yn benodol at y tebygolrwydd y bydd yn cynnwys cynigion i newid rheolau ar gyfer ymgeiswyr ac hefyd yr hawl i bleidleisio, fyddai o bosib yn hwb i gynyddu lefel yr amrywiaeth mewn democratiaeth.

PENDERFYNWYD

- 1. Ail gynnull yr Is Grŵp Amrywiaeth Mewn Democratiaeth, gyda'r Cynghorwyr Annwen Daniels, Olaf Cai Larsen, Anne Lloyd Jones a Catrin Wager yn aelodau.**
- 2. Trefnu digwyddiad peilot i hyrwyddo democratiaeth, gan wahodd disgyblion Ysgol y Moelwyn i gymryd rhan.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 12.20 y.h.

CADEIRYDD

Eitem 5


CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	12fed Ebrill 2018
PWNC	Darpariaeth Technegol i Aelodau
PWRPAS	Ystyried y ffordd ymlaen ar gyfer darpariaeth technegol i Aelodau
AWDUR	Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
SWYDDOGION PERTHNASOL	Huw Ynyr a Bryn Goodman Jones, Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

1. Yn fy rôl fel Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer y Cyngor, rwy'n ceisio sicrhau fod y ddarpariaeth sydd gennych ar gyfer cyflawni eich gwaith yn addas i bwrpas.
2. Ar ddechrau'r flwyddyn bu i mi gysylltu gyda'r holl Aelodau i geisio deall y pryderon a'r rhwystrau sydd gennych (ynghyd a gofyn am dystiolaeth) ar ddau faes penodol (darpariaeth technegol ac ymateb gan swyddogion)
3. Mae'r adroddiad yma yn edrych ar un o'r mesydd - 'Darpariaeth Technegol'. Roedd rhai Aelodau wedi son ar lafar eu bod wedi cael rhwystrau gyda'r ddyfais ac eraill wedi nodi eu bod angen cyfle i ddysgu mwy am y ddyfais.
4. Cafwyd ymateb da, gyda 27 o'r Cynghorwyr yn ymateb i'r ymholiad yn gyffredinol a 24 ohonoch yn cynnig sylwadau ar y ddarpariaeth dechnegol. Fel yr adroddwyd eisoes, roedd y prif bwyntiau a godwyd gyda'r ddarpariaeth dechnegol yn cyfeirio at
 - drafferthion gyda defnyddio yr elfen ebost sydd ar y Surface yn bresennol,
 - negeseuon ebyst a ffeiliau yn 'diflannu' ar ôl mis,
 - colli pwr batri yn gyflym
 - angen am rhywfaint o hyfforddiant pellach.

Ar ochor arall y geiniog, roedd eraill yn nodi eu bod yn hapus gyda'r ddarpariaeth ac yn canmol cymorth gan staff.

5. Mae'r graff ar y dudalen nesaf yn ymhelaethu rhywfaint ar yr ymatebion a ddaeth i law:

Prif Rwystrau a nodwyd gan Aelodau



6. Fe welir o'r graff uchod fod y prif bryderon ynghylch "Elfen ebost", "hyfforddiant i ddefnyddio'r peiriant" a "Trafferthion gyda'r Peiriant".
- "Elfen e-bost". Ymysg y problemau a nodwyd gyda'r elfen yma, roedd
 - Negeseuon e-bost yn diflannu ar ôl 30 diwrnod
 - Anodd cael gafael ar hen negeseuon e-bost
 - Diffygion gyda'r app, gwell fyddai cael defnyddio "Outlook" yn lle "mail"
 - "Diffyg dealltwriaeth y defnyddiwr o sut i ddefnyddio'r peiriant/ angen hyfforddiant". Ymysg yr elfennau ar gyfer hyn yr oedd
 - Hoffwn sesiwn ymarfer/hyfforddiant pellach
 - Mae'r peiriant yn rhy gymhleth
 - Ddim yn hawdd i'w ddefnyddio
 - Weithiau rwyf angen cymorth ar y penwythnos
 - A'r trydydd elfen oedd "Trafferthion gyda'r Peiriant", oedd yn cynnwys yr elfennau isod:
 - Bywyd batri ddim yn hir
 - Stopio teipio ar ganol brawddeg
 - Problemau "on/off" ac adnabod wyneb
 - Sgrin yn rhy fach

7. Mae ffordd ymlaen gydag ymateb i nifer o'r elfennau uchod.

8. Elfen ebost. Mae'r is-grwp Porth Aelodau wedi ymestyn eu briff ychydig er mwyn edrych ar rai o'r problemau sydd wedi eu hadnabod uchod. Bu i'r Grwp gael cyfle i weld datrysiadau posib ar gyfer yr elfen ebost. Mae dwy opsiwn y gellid eu hystyried fel a ganlyn:

Opsiwn 1 – Outlook/ 365

- O blaid
 - Gwasanaeth yn y cwmwl tebyg iawn i Google (cynnwys Google Docs) a Outlook.Com (cynnwys elfen O365 personol)
 - Y gallu i ddefnyddio Outlook llawn (2016) o gyfarpar dan rheolaeth TG Gwynedd e.e. eich Surface. Profiad llawn o becyn Outlook fel swyddogion y Cyngor, dim y Mail APP yn unig)
 - Holl ddogfennau sydd wedi eu harbed yn lleol ar y Surface yn cael eu didoli yn y cwmwl ac felly ar gael hyd yn oed os bydd y Surface wedi malu/golli
 - Os yn newid dyfais bydd popeth yn ail ymddangos yn awtomatig.
 - Rhannu dogfennau gyda phobl tu allan i staff Cyngor a dewis y math o fynediad e.e. Darllen yn unig neu hawl llawn i addasu
 - Rhannu calendr â phobl allanol
 - Y gallu i mewngofnodi trwy borwr We ar unrhyw ddyfais i ddarllen eich ebyst, calendr, dogfennau oedd wedi ei greu ar y Surface a.y.b. (os yn creu rhai newydd yn y drefn yma bydd rhain ar gael ar y Surface unwaith bydd cyswllt rhyngryd ar gael – auto sync) *** Bydd angen cynhyrchu côd ychwanegol os nad yn defnyddio dyfais Cyngor, tebyg iawn i systemau bancio ar lein.
 - Yr hawl i osod APP ar eich dyfais symudol (ffon/tablet) er mwyn darllen ebyst, calendr ac os yn dymuno dogfennau a taenlenni Excel, mwy nag un yn hollol iawn.
 - Dim dibyniaeth ar un system penodol (device agnostic) Dylai'r system weithio'n rhwydd ar unrhyw ddyfais
 - Y gallu i wneud defnydd llawer mwy eang o systemau TG na'r elfennau syml fel ebyst a calendr os yn dymuno
- Yn erbyn
 - Costau ychwanegol trwyddedau
 - Angen ail ffurfweddu'r ddyfais unwaith, gall gymryd hyd at 24 awr i gwblhau'r newidiadau

Opsiwn 2 – Ychwanegu i'r Domain a cynnig cysylltiad VPN ohono pan allan o'r swyddfa. Costau bychain blynyddol i dalu am drwydded VPN.

- O blaid
 - Llai costus os defnyddio'r Surface yn unig i ddarllen ebyst, calendr, MOD.GOV a defnydd o'r WE
- Yn erbyn
 - Dim ychwanegu i'r ddarpariaeth
 - Os am ychwanegu ebyst i ddyfeisiadau symudol neu trwy'r wê bydd costau ychwanegol
 - Llai hyblyg

9. Bu i aelodau'r Grwp wahodd y Cynghorydd Huw Wyn Jones hefyd i ymuno â'r gwaith gan ei fod wedi dangos cryn ddiddordeb mewn sicrhau datrysiad posib, ac fod ganddo gefndir yn y maes. O edrych ar y datrysiadau posib, penderfynwyd y byddai'n synhwyrol treialu'r datrysiad i weld os oedd defnyddio 'outlook' yn ateb y problemau. Roedd yr Aelodau hefyd yn ystyried pa mor hawdd oedd y trefniant newydd i'w ddefnyddio, ynghyd a nodi unrhyw broblemau wnaeth godi yn ystod y cyfnod rhwng Mawrth a rwan, er mwyn gallu adrodd ar hynny i'r Pwyllgor.
10. Er mai cyfnod byr yn unig sydd wedi bod ers i'r Aelodau gychwyn ar beilota'r trefniant newydd, mae'r ymateb cychwynnol yn ymddangos yn gadarnhaol iawn.
11. Petae newid i'r ddarpariaeth technegol yn un o'r opsiynau uchod, byddai'n golygu y camau gweithredu isod i'r Aelodau a'r Gwasanaeth TG:

- Cynghorydd yn nodi amser penodol i ddod a'i ddyfais i dechnegwr TG (efallai fydd hyn yn Gaernarfon yn unig). Bydd angen creu amserlen lle bydd Cynghorwyr yn trefnu amser/diwrnod
- TG yn creu 'back up' o unrhyw ddogfennau sydd ar y ddyfais
- Mudo ei blwch ebost i'r system newydd (365 tennant Gwynedd)
- Ail osod meddalwedd Windows ar y ddyfais
- Adfer y data gafodd ei gopïo
- Cynghorydd yn mewngofnodi
- Demo byr
 - Canllawiau i ddilyn os am ychwanegu ar ddyfais symudol, all TG roi cymorth gyda hyn
 - Canllawiau ar sut i fewngofnodi o unrhyw ddyfais arall trwy porwr

I sicrhau fod digon o amser i gwblhau'r gwaith bydd angen y ddyfais am 24 awr gan y Gwasanaeth TG.

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y sylwadau uchod a sylwadau'r Aelodau sydd wedi peilota'r 365 am gyfnod byr cyn penderfynu ar y ffordd ymlaen trwy un ai barhau gyda'r peilot am ychydig hirach neu fwrw ymlaen gyda'r gwaith.

12. Hyfforddiant. Mae nifer o gamau wedi eu cynnig ar gyfer cynorthwyo Aelodau gyda hyfforddiant i ddefnyddio'r peiriannau newydd.
- Roedd swyddogion TG o'r Cyngor ar gael cyn dechrau cyfarfodydd y Cyngor ym mis Mai a Mehefin i ateb cwestiynau Aelodau fel roeddent yn codi (trouble-shooting)
 - Cynhaliwyd dwy sesiwn hyfforddiant i Aelodau ar sut i ddefnyddio'r peiriannau yn dilyn ceisiadau gan nifer ohonoch. Cynhaliwyd sesiwn ym mis Mehefin yng Nghaernarfon ac ym mis Gorffennaf ym Mhenrhyndeudraeth, gyda 18 aelod yn dewis elwa o'r seisynau hynny. Cafwyd adborth da ganddynt.

- Bu i nifer fawr o Aelodau Etholedig hefyd elwa o sesiynau 1-1 gyda swyddogion o'r Cyngor. Yr Aelodau eu hunain oedd yn cysylltu er mwyn trefnu y sesiynau hynny.
- Cynhaliwyd "surjeris" TG ar ddechrau cyfarfodydd y Fforymau Ardal cyn y Nadolig, oedd yn gyfle i unrhyw Aelod gael cymorth gyda'r Surface a/neu'r Porth Aelodau.
- Mae nifer o Aelodau hefyd wedi derbyn cymorth ar faterion technegol gan Ddesg Gymorth TG, gan nodi eu bod wedi derbyn cymorth gwerthfawr pan fo problemau wedi codi.

13. Fodd bynnag, mae'n ymddangos fod rhai Aelodau yn parhau i fod eisiau mwy o hyfforddiant. Argymhellir felly fod sesiwn arall, tebyg i'r sesiynau a gynhaliwyd ym mis Mehefin/ Gorffennaf 2017 yn cael ei threfnu. Er mwyn gwneud y gorau o amser Cynghorwyr ac adnoddau'r Cyngor, argymhellir fod y sesiwn ychwanegol yn cael ei threfnu ar ol penderfynu ac addasu'r ddarpariaeth ebost i un o'r ddwy opsiwn uchod.

14. Trafferthion gyda'r Peiriant. Hoffwn atgoffa'r Aelodau fod dewis y ddarpariaeth wedi ei wneud yn seiliedig ar waith Is-Grwp o Aelodau a fu'n treialu gwahanol declynnau cyn etholiad Mai 2017. Ystyriwyd nifer o wahanol ffactorau cyn dod i gasgliad, ac yn eu mysg yr oedd maint y sgrin (mae'r sgrin cyfredol yn fwy na sgriniau'r hen ipads) a'r angen i allu gwneud mwy na darllen dogfennau yn unig, h.y. gallu creu dogfennau yn haws nac ar yr ipad. Yn annatod felly, mae'r ddarpariaeth newydd yn fwy cymhleth na'r hen ipads, ond mae'n gallugoi Aelodau i wneud llawer iawn mwy o ddefnydd ohonynt.

15. Mae'r ddarpariaeth newydd yn galluogi Aelodau i wneud y gwaith sylfaenol sydd ei angen arnynt e.e. derbyn ac ateb ebyst, calendr, Modern.gov a mynediad i'r Porth. Mae hefyd yn galluogi'r Aelodau hynny sydd eisiau'r ddarpariaeth, i greu eu dogfennau eu hunain, ffeilio eu gwaith fel Cynghorydd a nifer o bethau eraill.

16. Dylid nodi fod taflen fer wedi ei chreu ar y Porth Aelodau er mwyn nodi camau syml i arbed bywyd batri y Surface o ganlyniad i'r sylwadau a dderbyniwyd gan Aelodau.

<https://dgit.com/surface-pro-4-battery-life-improve-51190/>

Eitem 6


CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	12fed Ebrill 2018
PWNC	Ymateb i ymholiadau
PWRPAS	Diweddaru'r Pwyllgor o'r datblygiadau ym maes ymateb i ymholiadau gan Aelodau
AWDUR	Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
SWYDDOG PERTHNASOL	Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

1. Yn fy rôl fel Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer y Cyngor, rwy'n ceisio sicrhau fod y ddarpariaeth sydd gennych ar gyfer cyflawni eich gwaith yn addas i bwrpas.
2. Ar ddechrau'r flwyddyn bu i mi gysylltu gyda'r holl Aelodau i geisio deall y pryderon a'r rhwystrau sydd gennych, ynghyd a gofyn am unrhyw dystiolaeth ar ddau faes penodol (darpariaeth technegol ac ymateb gan swyddogion)
3. Mae'r adroddiad yma yn edrych ar un o'r mesydd - 'ymateb swyddogion i ymholiadau gan Aelodau'. Roedd rhai aelodau wedi son ar lafar fod diffyg ymateb ar adegau, ac addewis yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 14/12/2017 i gysylltu â'r holl aelodau i ofyn am dystiolaeth o ddiffyg ymateb.
4. Fel a nodwyd yn yr adroddiad blaenorol, cafwyd ymateb da yn gyffredinol, gyda 27 o'r Cyngorwyr yn ymateb mewn cyfanswm. Fodd bynnag, 13 aelod yn unig wnaeth ymateb i'r elfen ymholiadau – dau yn nodi nad oeddent wedi cael dim problem, rhai yn nodi un enghraifft yn unig, ac eraill yn rhoi nifer o enghreifftiau penodol.
5. Roedd materion yn amrywio o adrodd bodlonrwydd cyffredinol gydag ymatebion amserol, i broblemau wrth adnabod y swyddog priodol i gysylltu â hwy ac eraill yn adnabod Adrannau ac unigolion penodol lle nad oeddent wedi derbyn ymatebion.
6. Yn yr achosion o adnabod Adrannau a swyddogion penodol, mae trafodaethau wedi bod gyda'r swyddogion perthnasol er mwyn iddynt ymateb i'r sefyllfa. Yn ogystal, wrth ystyried y sylwadau ynghylch pa swyddogion i gysylltu â hwy, mae gwaith wedi ei wneud gan yr is-grŵp porth aelodau i fod yn gwella'r wybodaeth sydd ar y porth aelodau i'w wneud yn fwy hwylus i allu adnabod y swyddogion allweddol.
7. Ar yr un pryd y mae'r Pwyllgor Safonau yn edrych ar ddiweddaru protocol y Cyngor ar gyswllt Aelod/ Swyddog. Mae adroddiad ar wahân ar y protocol.
8. I gyd-fynd â'r protocol, mae taflen canllaw syml i swyddogion ar sut i ymdrin ag ymholiadau gan aelodau wedi ei ddatblygu i gyd-fynd ag egwyddorion y protocol. Gweler Atodiad A. **Gofynnir i'r Pwyllgor am sylwadau.**

YMATEB I YMHOLIADAU GAN AELODAU ETHOLEDIG

Egwyddorion syml:

- *Ymdrin yn barchus*
- *Ateb mor brydlon a phosib*
- *Ymateb yn llawn o fewn 5 diwrnod gwaith o dderbyn yr ymholiad, neu*
- *Ymateb o fewn 5 diwrnod gwaith gan gydnabod derbyn yr ymholiad ac esbonio'n llawn beth sy'n digwydd i'r ymholiad*
- *Aelod i dderbyn diweddariad amserol o be sy'n digwydd (peidio eu gadael yn y tywyllwch)*



Adolygu o fewn y gwasanaeth – oes rhywbeth y gellir ei wneud fel nad oes ymholiad tebyg yn dod i'r dyfodol.

Eitem 7

PWYLLGOR	PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD
DYDDIAD	12 EBRILL 2018
PWNC	Protocol ar Gysylltiadau Aelodau Swyddogion
AWDUR	Iwan Evans – Swyddog Monitro
PWRPAS YR ADRODDIAD	Mae'r Pwyllgor Safonau yn adolygu'r Protocol Cysylltiadau Aelod Swyddog a'r pwrpas yw ceisio adborth ar y cynnwys er adrodd yn ôl.

Cefndir

1. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Protocol ers cryn dipyn o flynyddoedd bellach. Fe'i hadolygwyd diwethaf yn 2014 fel rhan o ddatblygu'r cyfansoddiad newydd.
2. Amcan y Protocol yw rhoi arweiniad i Aelodau a Swyddogion o ran eu cysylltiadau a'i gilydd. Mae elfennau'r Protocol yn gorgyffwrdd a Chod Ymddygiad Aelodau a Swyddogion ond mae'n ehangach wrth esbonio rolau a disgwyliadau o ran ymddygiad.
3. Mae'r math o faterion fyddai'n ddisgwyliadwy mewn Protocol a'r fath i'w gweld rhwng y cloriau megis rolau aelodau a swyddogion, parch a chwarteisi, chyfrinachedd a niwtraliaeth wleidyddol. Mae hefyd yn cyfarch materion megis disgwyliadau o safbwynt darparu gywbodaeth, annibyniaeth broffesiynol swyddogion a sut i ymateb i sefyllfaoedd penodol
4. Cefnogi'r Protocol gan drefniadau rheoli staff y Cyngor a Threfn Datrys Leol y Cyngor a'r gyfundrefn Cod Ymddygiad o safbwynt aelodau.
5. Fel rhan o broses adolygu Protocolau Priodoldeb mynegodd y Pwyllgor Safonau ddymuniad i adolygu'r Protocol yma gan adnabod man newidiadau o safbwynt ystyr a dehongliad oedd angen sylw. Mae'r materion a amlygir fel addasiadau posib hefyd yn deillio o ymgynghoriad gyda Phenaethiaid ac Uwch Reolwyr y Cyngor. Yn bennaf man addasiadau sydd wedi deillio o safbwynt eglurdeb. Bydd yr holl argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Safonau gyda bwriad o gyflwyno Protocol diwigiedig i'r Cyngor Llawn fabwysiadu.

Argymhelliad

Fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd yn rhoi barn ac argymhellion ar gynnwys y Protocol Cysylltiadau Aelodau a Swyddogion.

Atodiadau:

1. Protocol Cysylltiadau Aelodau Swyddogion

Atodiad 1

ADRAN 21

21. PROTOCOL AR GYSYLLTIADAU AELODAU / SWYDDOGION

21.1 Cyflwyniad

Diben y Protocol hwn yw rhoi arweiniad i Aelodau a Chyflogeion y Cyngor o ran eu cysylltiadau â'i gilydd.

21.2 Mae parch rhwng Aelodau a Chyflogeion yn hanfodol i lywodraeth leol dda. Fodd bynnag, gall cyfeillgarwch personol agos rhwng Aelodau a Chyflogeion unigol niweidio'r berthynas hon ac achosi embaras i Aelodau a Chyflogeion eraill.

21.3 Mae'n rhaid i'r berthynas weithredu heb beryglu cyfrifoldebau pennaf Cyflogeion i'r Cyngor yn ei gyfanrwydd, a chan roi ystyriaeth briodol i'r cyfryw gyngor technegol, ariannol, proffesiynol a chyfreithiol y gall Cyflogeion ei roi'n gyfreithlon i Aelodau. Mae'r Protocol yn ceisio gosod fframwaith sy'n hwyluso'r cysylltiadau gwaith rhwng Aelodau a Chyflogeion.

21.4 Mae Aelodau a Chyflogeion yn ddarostyngedig i'w Codau Ymddygiad eu hunain sydd ar gael yn y Cyfansoddiad hwn. Mae'r Protocol hwn yn rhoi arweiniad ar gysylltiadau gwaith rhwng Aelodau a Chyflogeion. Mae'n hanfodol bod y ddau yn gyfarwydd â'r rhwymedigaethau manwl yn eu Codau Ymddygiad unigol, a fydd yn drech os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Codau a'r Protocol hwn.

21.5 Rolau Aelodau

Mae Aelodau'n ymgymryd â llawer o wahanol rolau. Yn gyffredinol:

21.5.1 Mae Aelodau'n mynegi gwerthoedd gwleidyddol ac yn cefnogi polisïau'r grŵp neu'r blaid y maent yn perthyn iddo/iddi (os o gwbl).

21.5.2 Mae Aelodau'n cynrychioli eu hadran etholiadol ac yn eiriolwyr ar ran y dinasyddion sy'n byw yn yr ardal.

21.5.3 Mae Aelodau'n ymwneud â phartneriaethau gweithredol gyda sefydliadau eraill fel arweinwyr cymunedol.

21.5.4 Mae Aelodau'n cyfrannu at y penderfyniadau a wneir yn y Cyngor Llawn ac yn ei gyrff amrywiol y maent yn gwasanaethu arnynt, yn ogystal â chydbwyllgorau, cyrff allanol a sefydliadau partneriaeth.

21.5.5 Mae Aelodau'n **gweithio gyda Swyddogion** helpu i ddatblygu ac adolygu polisi a strategaeth.

21.5.6 Mae Aelodau'n monitro ac adolygu gweithrediad polisïau ac ansawdd gwasanaethau.

21.5.7 Mae Aelodau'n ymwneud â gwaith lled-farnwrol trwy eu haelodaeth o bwyllgorau rheoleiddio.

21.6 Mae ymddygiad Aelodau'n cael ei reoli gan y Cod Ymddygiad i Aelodau sy'n datgan:

“Rhaid i chi

- (a) *gyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd;*
- (b) *ddangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt;*
- (c) *beidio ag ymddwyn fel bwli neu harasio unrhyw berson; a*
- (ch) *beidio â gwneud dim sy'n cyfaddawdu, neu sy'n debygol o gyfaddawdu, didueddrwydd y sawl sy'n gweithio i'ch cyngor neu ar ei ran."*

21.7 Rolau Cyflogeion

Yn fyr, mae prif rolau Cyflogeion fel a ganlyn:

21.7.1 Rheoli a darparu'r gwasanaethau y mae'r Cyngor wedi eu penodi'n gyfrifol amdanynt a bod yn atebol am effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau hynny.

21.7.2 Cyngori'r Cyngor a'i gyrff amrywiol ac Aelodau unigol o ran y gwasanaethau a ddarperir.

21.7.3 Cychwyn cynigion polisi.

21.7.4 Gweithredu polisi cytunedig.

21.7.5 Sicrhau bod y Cyngor bob amser yn gweithredu mewn modd cyfreithlon.

21.8 Mae ymddygiad Cyflogeion yn cael ei reoli gan y Cod Ymddygiad i Gyflogeion sy'n datgan:

"Cysylltiadau ag aelodau, y cyhoedd a chyflogeion eraill.

- 4. *Mae cyd-barch rhwng cyflogeion cymwys ac aelodau yn hanfodol ar gyfer llywodraeth leol dda, a dylai perthnasoedd gwaith gael eu cadw ar sail broffesiynol.*
- 5. *Dylai cyflogeion cymwys yr awdurdodau perthnasol ymdrin â'r cyhoedd, aelodau a chyflogeion eraill gyda chydymdeimlad, yn effeithlon ac yn ddiuedd."*

21.9 Parch a Chwrteisi

21.9.1 Er mwyn i fusnes y Cyngor gael ei gynnal yn effeithiol, mae'n rhaid cael parch, ymddiriedaeth a chwarteisi yn yr holl gyfarfodydd a chysylltiadau, ffurfiol ac anffurfiol fel ei gilydd, rhwng Aelodau a Chyflogeion. Mae hyn yn rhan bwysig iawn o enw da'r Cyngor a chanfyddiad y cyhoedd ohono. Mae'n bwysig iawn bod Aelodau a Chyflogeion yn cofio eu rhwymedigaethau unigol i wella enw da'r Cyngor a'u bod yn gwneud ymdrech i osgoi beirniadu Aelodau eraill, neu Gyflogeion eraill, mewn manau cyhoeddus.

21.9.2 Pwysau Gormodol

- (a) Wrth ymwneud â'i gilydd, mae'n bwysig nad yw Aelodau a Chyflogeion yn ceisio manteisio'n annheg ar eu safleoedd.
- (b) Wrth ymwneud â Chyflogeion (yn enwedig Cyflogeion iau), mae angen i Aelodau fod yn ymwybodol ei bod yn rhwydd iddynt deimlo parchedig

ofn ac fel petaent dan anfantais. Gall teimladau o'r fath fod yn ddwysach pan fydd Aelodau'n dal swydd swyddogol a/neu wleidyddol uwch.

- (c) Ni ddylai aelod roi swyddogion dan bwysau amhriodol i weithredu yn unol â dymuniadau'r aelod a bydd swyddog bob amser yn rhydd i gynnig barn broffesiynol sy'n groes i farn yr aelod.
- (ch) Ni ddylai Aelod roi pwysau gormodol ar Gyflogai i wneud unrhyw beth nad oes ganddo ef/ganddi hi y pŵer i'w wneud nac i ymgymryd â gwaith y tu allan i'w (d)yletswyddau arferol neu ei (h)oriau arferol. Mae angen bod yn arbennig o ofalus o ran defnyddio eiddo a gwasanaethau'r Cyngor.
- (d) Yn yr un modd, mae'n rhaid i Gyflogai beidio â cheisio dylanwadu'n ormodol ar Aelod unigol i wneud penderfyniad o'i blaid/phlaid, na chodi materion personol yn ymwneud â'i swydd, na gwneud honiadau yn erbyn Cyflogeion eraill. *(Mae gan y Cyngor weithdrefnau ffurfiol ar gyfer ymgynghori, cwyno a disgyblu, ac mae gan Gyflogeion yr hawl i adrodd am gamweddau posibl o dan God Adrodd Cyfrinachol y Cyngor sef Polisi Canu'r Gloch.)*

21.9.3 Bwlio neu harasio

Nid yw'n dderbyniol i aelod fwlio neu harasio swyddog. Ystyrir unrhyw weithred yn erbyn swyddog yn fwlio neu harasio os mai'r bwriad oedd dylanwadu'n amhriodol neu'n annheg ar ei farn neu ei weithgaredd. Nid oes lle i sylwadau dilornus personol mewn trafodaeth rhwng aelod a swyddog ac ni ystyrir ei bod yn briodol i'r naill leisio cwyn am y llall yn gyhoeddus mewn pwyllgor neu yn y wasg, heb yn gyntaf ddefnyddio trefniadau mewnol y Cyngor i geisio datrys y gwyn honno.

21.9.4 Cyfeillgarwch

Mae awyrgylch weithio dda rhwng Aelodau a Swyddogion yn gyfrwng i gynnal perthynas weithio effeithiol. Fodd bynnag, dylent fod yn ofalus ynglyn a datblygu cyfeillgarwch personol agos. Ni ddylid tansellio cydbarchu na'r disgwyliad ac ymddangosiad fod swyddogion yn darparu cyngor proffesiynol a di-duedd i aelodau.

- ~~(a) Gall cyfeillgarwch personol agos rhwng Aelodau a Gyflogeion niweidio'r egwyddor o barch tuag at ei gilydd. Fe allai hefyd, yn fwriadol neu'n ddamweiniol, arwain at drosglwyddo gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth nad yw'n briodol ei throsglwyddo rhyngddynt, fel manylion personol.~~
- ~~(b) Gallai cyfeillgarwch o'r fath hefyd achosi embaras i Aelodau eraill a/neu Gyflogeion eraill a hyd yn oed arwain at amheuan ynglyn â ffafriaeth.~~
- ~~(c) Am y rhesymau hyn, mae'n rhaid osgoi cyfeillgarwch personol agos.~~

21.10 Rhoi Cyngor a Gwybodaeth ac Ymdrin a Gohebiaeth

21.10.1 Caiff Cyflogeion eu cyflogi gan y Cyngor yn ei gyfanrwydd. Maent yn gwasanaethu'r Cyngor ac yn atebol i'r Prif Weithredwr a'u Cyfarwyddwyr/Penaethiaid Gwasanaeth priodol, ac nid i Aelodau unigol o'r Cyngor waeth beth fo'u swydd.

- 21.10.2 Mae Aelodau'n rhydd i gysylltu â Chyflogeion y Cyngor er mwyn cael y cyfryw wybodaeth a chyngor ag y gallai fod ei (h)angen arnynt yn rhesymol i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl fel Aelod o'r Cyngor. Gall hyn amrywio o gais am wybodaeth gyffredinol ynglŷn â rhyw agwedd ar weithgareddau'r Cyngor i gais am wybodaeth benodol ar ran etholwr.
- 21.10.3 Dylai Cyflogeion bob amser geisio ymateb i geisiadau am wybodaeth **a gohebiaeth** yn brydlon a, sut bynnag, dylent hysbysu'r Aelod os oes oedi sylweddol yn debygol wrth ymdrin ag ymholiad. Dylid ymdrechu o leiaf i ddilyn yr amserlen ar gyfer ymateb i ohebiaeth h.y. naill ai ymateb llawn neu, os nad yw hyn yn bosibl, cydnabyddiaeth sy'n esbonio'n llawn beth sy'n digwydd o fewn pum diwrnod gwaith o dderbyn yr ymholiad.
- 21.10.4 Ymdrinnir â hawliau cyfreithiol Aelodau i archwilio dogfennau'r Cyngor yn rhannol gan statud ac yn rhannol gan gyfraith gwlad.
- 21.10.5 Mae'r Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran 14 y Cyfansoddiad hwn yn esbonio'r sefyllfa o ran mynediad at bapurau sy'n ymwneud â chyrrff y Cyngor.
- 21.10.6 Mae arfer yr hawl cyfraith gwlad yn dibynnu ar allu Aelod i ddangos ei fod/bod "angen gwybod". I'r perwyl hwn, nid oes gan Aelod hawl i "gennad i grwydro" i archwilio unrhyw rai o ddogfennau'r Cyngor. Nid yw chwilfrydedd yn unig yn ddigonol.
- 21.10.7 Dylai'r wybodaeth a geisir gan Aelod gael ei darparu gan y Gwasanaeth perthnasol dim ond cyn belled â bod hynny o fewn terfynau adnoddau'r Gwasanaeth. O'u rhan hwy, dylai Aelodau geisio gweithredu'n rhesymol o ran nifer a chynnwys y ceisiadau a wnânt.
- 21.10.8 Mae'n bwysig i Wasanaethau a'u staff roi gwybodaeth i Aelodau am y materion pwysig sy'n ymwneud â'r Cyngor ac, yn fwy penodol, am faterion a digwyddiadau sy'n effeithio ar yr ardaloedd y maent eu cynrychioli. Dylid rhoi gwybodaeth i Aelodau lleol am gynigion sy'n effeithio ar eu hadrannau etholiadol a dylid eu gwahodd hefyd i fynychu digwyddiadau a drefnir gan y Cyngor yn eu hadrannau etholiadol. (Mae mwy o fanylion yn y Siarter Ymgynghori ag Aelodau Lleol, sydd wedi'i hatodi i'r Protocol hwn).
- 21.10.9 Pe byddai Aelod yn gofyn am wybodaeth benodol yn ymwneud â gwaith Gwasanaeth arbennig, a'i bod yn ymddangos yn bosibl neu'n debygol y gallai mater gael ei godi neu gwestiwn gael ei ofyn mewn cyfarfod dilynol ar sail y wybodaeth a ddarparwyd, yna dylid rhoi gwybod i'r Aelod priodol o'r Cabinet neu Gadeirydd y Pwyllgor dan sylw am y wybodaeth a ddarparwyd.
- 21.10.10 O bryd i'w gilydd, mae'n rhaid i Swyddogion gynghori Aelodau nad oes modd dilyn ffordd benodol o weithredu. Weithiau, mae Aelodau'n tybio mai'r rheswm am hyn yw bod Swyddogion yn ceisio llesteirio dymuniadau gwleidyddion yn fwriadol. Mewn gwirionedd, yn anaml iawn y bydd hyn yn wir. Cyflogir Swyddogion i roi cyngor proffesiynol diduedd, hyd yn oed os nad yw'r cyngor hwnnw'n plesio Aelodau. Maent yn gwneud hyn llawn cymaint er mwyn amddiffyn Aelodau ag am unrhyw reswm arall. Fodd bynnag, os bydd angen rhoi cyngor negyddol, bydd Swyddog effeithiol hefyd yn rhoi awgrymiadau ynglŷn â sut y gallai Aelodau gyflawni rhai o'u hamcanion neu eu holl amcanion mewn ffyrdd eraill. Mae Swyddogion o'r fath yn amhrisiadwy i unrhyw Gyngor.
- 21.10.11 Mae'n bosibl y bydd gan Aelodau hawl o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i dderbyn gwybodaeth sydd y tu allan i'w hawliau cyfraith gwlad ar sail

“angen gwybod”. Anogir Cyflogeion i roi dogfennau i Aelodau heb fod angen cyflwyno cais ffurfiol o dan y Ddeddf os yw'n amlwg o ymholiad yr Aelod y byddai gan unrhyw unigolyn yr hawl i dderbyn dogfennau o'r fath. Bydd **Rheolwr Gwybodaeth** y Cyngor yn gallu rhoi cyngor mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, os bydd angen, yn glŷn â pha un a fyddai unrhyw gais yn dod o fewn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

21.10.12 Mae'n bwysig cael perthynas waith agos rhwng Arweinydd y Cyngor, Aelod Cabinet a chyfarwyddwr, penaethiaid gwasanaeth ac uwch swyddogion unrhyw adran sy'n ymwneud a'r portfolio perthnasol. Serch hynny, ni ddylid byth ganiatau i'r perthynasau hyn ddatblygu i fod mor agos, neu ymddangos felly, fel bod hyn yn taflu amheuaeth ar allu'r swyddog i ddelio'n ddiuedd efo aelodau eraill a grwpiau gwleidyddol eraill.

21.10.13 Rhaid cofio bod swyddogion yn atebol i'w pennaeth gwasanaeth ac, er y dylai swyddogion bob amser geisio cynorthwyo cadeirydd, arweinydd portffolio (neu yn wir unrhyw aelod), rhaid iddynt beidio, wrth wneud hynny, fentro y tu hwnt i derfynau pa bynnag awdurdod sydd wedi ei roi iddynt gan eu prif swyddog.

21.11 **Cyfrinachedd**

21.11.1 Yn unol â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau, mae'n rhaid i Aelod beidio â datgelu gwybodaeth a roddwyd iddo ef/iddi hi yn gyfrinachol gan unrhyw un, na gwybodaeth a gafwyd y mae ef/hi yn credu ei bod o natur gyfrinachol, neu y mae'n rhesymol tybio y dylai ef/hi fod yn ymwybodol ei bod o natur gyfrinachol, ac eithrio:

- (a) pan fydd ganddo ef/ganddi hi ganiatâd unigolyn sydd ag awdurdod i'w roi;
- (b) ei bod yn ofynnol iddo ef/iddi hi wneud hynny gan y gyfraith;
- (c) bod y datgeliad yn cael ei wneud i drydydd parti at ddiben cael cyngor proffesiynol, cyn belled â bod y trydydd parti'n cytuno i beidio â datgelu'r wybodaeth i unrhyw unigolyn arall; neu
- (ch) fod y datgeliad:
 - (i) yn rhesymol ac er budd y cyhoedd; ac
 - (ii) yn cael ei wneud gyda phob ewyllys da ac yn unol â gofynion rhesymol yr awdurdod.

21.11.2 Dylid trin papurau Pwyllgor cyfrinachol (papurau eithriedig) fel gwybodaeth gyfrinachol oni bai bod y Pwyllgor perthnasol yn penderfynu peidio ag eithrio'r wasg a'r cyhoedd. Atgoffir Aelodau mai'r Swyddog Monitro sy'n gwneud y penderfyniad cychwynnol yn glŷn â pha un a ddylid trin y papurau'n gyfrinachol ai peidio. Y Pwyllgor sydd i benderfynu pa un a ddylent aros yn gyfrinachol. Gall gwybodaeth arall fod yn gyfrinachol oherwydd y byddai ei datgelu yn mynd yn groes i fudd i'r Cyngor neu'r cyhoedd. Gall gwybodaeth fod yn gyfrinachol hefyd oherwydd yr amgylchiadau y'i cafwyd ynddynt.

21.11.3 Bydd gwybodaeth a gohebiaeth am faterion preifat neu fusnes unigolyn yn gyfrinachol fel arfer.

- 21.11.4 Dylai Swyddogion egluro wrth Aelodau os ydynt yn rhoi gwybodaeth gyfrinachol iddynt. Os yw Aelod yn ansicr pa un a yw gwybodaeth yn gyfrinachol ai peidio, dylai ef/hi ofyn i'r Swyddog perthnasol, ond trin y wybodaeth yn gyfrinachol yn y cyfamser.
- 21.11.5 Mae'n rhaid i unrhyw wybodaeth am y Cyngor a roddir i Aelod gael ei defnyddio gan yr Aelod hwnnw/honno dim ond mewn cysylltiad â chyflawni ei (d)dyletswyddau'n briodol fel Aelod o'r Cyngor.
- 21.11.6 Os yw Aelod yn derbyn gwybodaeth gyfrinachol a'i fod/bod o'r farn y dylid ei datgelu i unigolyn arall oherwydd bod hynny'n rhesymol ac er budd y cyhoedd, yna mae'n rhaid iddo ef/iddi hi ymgynghori â'r Swyddog Monitro yn gyntaf ac ni chaiff ddatgelu'r wybodaeth heb ystyried unrhyw gyngor a roddwyd gan y Swyddog hwnnw/honno.

21.12 Darparu Gwasanaethau Cymorth i Aelodau

21.12.1 Yr unig sail y gall y Cyngor ddarparu gwasanaethau cymorth (e.e. deunydd ysgrifennu, prosesu geiriau, technoleg gwybodaeth, argraffu, llun-gopïo, cludiant, ac ati) i Aelodau yn gyfreithlon yw er mwyn eu cynorthwyo i gyflawni eu rôl fel Aelodau o'r Cyngor. Felly, mae'n rhaid i wasanaethau cymorth o'r fath gael eu defnyddio ar gyfer busnes y Cyngor yn unig. Ni ddylid byth eu defnyddio mewn cysylltiad â gweithgarwch ymgyrchu neu wleidyddiaeth bleidiol nac at ddibenion personol.

21.12.2 Gohebiaeth

Fel arfer dylai llythyrau swyddogol ar ran y Cyngor gael eu hanfon yn enw'r Cyflogai priodol, yn hytrach nag yn enw Aelod. Mewn rhai amgylchiadau, mae'n berffaith dderbyniol anfon llythyr yn enw Aelod, er enghraifft, sylwadau i Weinidog o'r LLYwodraeth neu lythyr mewn ymateb i lythyr ymholiad neu gwyno a anfonwyd yn uniongyrchol at yr Aelod hwnnw/honno. Ni ddylai llythyrau sydd, er enghraifft, yn creu rhwymedigaethau neu'n rhoi cyfarwyddiadau ar ran y Cyngor, byth gael eu hanfon yn enw Aelod.

21.12.3 Fel arfer, ni ddylai swyddog anfon copi o ohebiaeth rhwng aelod unigol a'r swyddog hwnnw/honno at unrhyw aelod arall. Pan fo achos neilltuoel lle mae angen anfon copi o'r ohebiaeth at aelod arall, dylid egluro hyn yn glir wrth yr aelod gwreiddiol. Mewn geiriau eraill, ni ddylid defnyddio system o "gopiau distaw".

21.12.4 Y Cyfryngau

Gall cyfathrebu â'r cyfryngau fod yn rhan bwysig o lwyth gwaith Aelod. Yn gyffredinol, mae Aelodau'n rhoi sylwadau a safbwyntiau tra bod Cyflogeion yn rhoi gwybodaeth ffeithiol. Os yw Aelod yn ansicr ynglŷn ag amgylchiadau mater penodol, dylai gysylltu â'r Cyfarwyddwr neu'r Pennaeth Gwasanaeth priodol neu ofyn i Swyddfa'r Wasg wneud hynny.

21.13 Rôl y Cyngor fel Cyflogwr

Wrth ymwneud â Swyddogion, dylai Aelodau gydnabod a rhoi ystyriaeth i rôl y Cyngor fel cyflogwr. Dylai Aelodau fod yn ymwybodol y gallai Swyddogion ddibynnu ar ymddygiad amhriodol Aelod mewn achos cyflogaeth yn erbyn y Cyngor.

21.14 Gweithgarwch Gwleidyddol

21.14.1 Mae nifer o gyfyngiadau'n berthnasol i gyflogai sy'n dal swydd y dynodir ei bod "dan gyfyngiadau gwleidyddol" o dan delerau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

21.14.2 I grynhoi, ni chaiff cyflogeion o'r fath:

- (a) fod yn Aelod Seneddol, Aelod o Senedd Ewrop neu Aelod o awdurdod lleol;
- (b) gweithredu fel asiant neu is-asiant etholiad ar gyfer unigolyn sy'n ymgeisio i gael ei (h)ethol yn Aelod o unrhyw un o'r cyrff y cyfeirir atynt yn (a);
- (c) bod yn Swyddog plaid wleidyddol neu unrhyw gangen plaid wleidyddol neu'n Aelod o unrhyw bwyllgorau neu is-bwyllgorau plaid neu gangen o'r fath, pe byddai ei (d)dyletswyddau'n debygol o fynnu ei fod/bod yn:
 - (i) cymryd rhan mewn rheolaeth gyffredinol y blaid neu'r gangen; neu
 - (ii) weithredu ar ran y blaid neu'r gangen wrth ymdrin ag unigolion heblaw am Aelodau o'r blaid;
- (ch) canfasio ar ran plaid wleidyddol neu unigolyn sy'n ymgeisio i gael ei (h)ethol i unrhyw un o'r cyrff y cyfeirir atynt yn 21.14.2.(a).
- (d) siarad â'r cyhoedd gyda'r bwriad ymddangosiadol o ennyn cefnogaeth y cyhoedd i blaid wleidyddol; a
- (dd) chyhoeddi unrhyw waith ysgrifenedig neu artistig y mae ef/hi wedi'i awduro (neu'n un o'i awduron) neu weithredu fel golygydd mewn perthynas â gwaith o'r fath, neu achosi, awdurdodi neu ganiatáu i unrhyw unigolyn arall gyhoeddi gwaith neu gasgliad o'r fath – os yw'n ymddangos bod y gwaith wedi'i fwriadu i ennyn cefnogaeth i blaid wleidyddol.

21.14.3 Bydd swyddogion yn darparu cyngor i bwyllgorau, fforymau aelodau ayb yn hytrach nag i grwpiau gwleidyddol. O bryd i'w gilydd fodd bynnag, gall fod yn anorfod cyngori grŵp gwleidyddol. Mewn amgylchiadau o'r fath mae'n briodol i grwpiau pleidiol alw ar Gyflogeion i gynorthwyo a chyfrannu at eu hystyriaethau cyn belled â'u bod yn cynnal safbwynt sy'n wleidyddol ddiuedd. Gall cymorth gynnwys ystod o weithgareddau megis briffio Aelodau ynglŷn â'u rolau, e.e. cadeirydd neu lefarydd. Dylai grwpiau gwleidyddol ofyn i Gyflogeion roi gwybodaeth a chyngor sy'n ymwneud â busnes y Cyngor yn unig, ac nid materion sydd o natur gwleidyddiaeth bleidiol. Dylai cyngor o'r fath fod ar gael i'r holl grwpiau pleidiol ac nid dim ond i'r grŵp mwyafrifol. Mae'n bwysig bod amhleidioldeb gwleidyddol Cyflogeion yn cael ei gynnal, a bod Cyflogeion yn cynnal cyfrinachedd y grŵp.

21.14.4 Fel arfer, yr unig Gyflogeion a fydd yn mynychu cyfarfodydd grŵp fydd y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth. Yn gyffredinol, byddant yn gadael y cyfarfod ar ôl rhoi eu cyflwyniad ac ateb cwestiynau. Dylid cofrestru gyda'r Swyddog Monitro pob achlysur pan yw swyddog (heblaw cymhorthydd gwleidyddol) yn mynychu cyfarfod o grŵp gwleidyddol.

21.15 Torri'r Protocol

- (a) Os yw Aelod o'r farn nad yw wedi cael ei drin/thrin â pharch neu gwrteisi priodol, caiff ef/hi godi'r mater gyda rheolwr llinell y Cyflogai. Os nad yw trafodaeth uniongyrchol gyda'r rheolwr yn datrys y gŵyn, dylid ei hatgyfeirio i'r Pennaeth Gwasanaeth neu'r Cyfarwyddwr sy'n gyfrifol am y cyflogai dan sylw. Gallai achos o Dorri'r Protocol arwain at gymryd camau disgyblu yn erbyn Cyflogai os yw'r amgylchiadau'n cyfiawnhau hynny.
- (b) Os yw cyflogai o'r farn bod Aelod wedi torri'r protocol, dylai ef/hi ymgynghori â'i l a fydd yn cynnwys y Pennaeth Gwasanaeth neu'r Cyfarwyddwr os bydd angen. Mewn rhai amgylchiadau, gallai achos o dorri'r Protocol hefyd fod yn gyfystyr â thorri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau. Os yw'r achos yn ddigon difrifol, gallai fod cyfiawnhad dros ei atgyfeirio i'r Swyddog Monitro fel cwyn i'w hystyried dan y drefn ddatrys leol a all yn y pen draw arwan at wrandawriad gerbron y Pwyllgor Safonau. Bydd modd datrys llawer o gwynion yn anffurfiol. Bydd y Swyddog Monitro neu'r Prif Weithredwr yn cynorthwyo â'r broses hon os bydd angen.

21.16 Casgliad

Trwy ddilyn arfer da a sicrhau cysylltiadau gwaith synhwyrol ac ymarferol rhwng aelodau a chyflogeion, gobeithir y gellir sefydlu un o gonglfeini awdurdod lleol llwyddiannus ac felly darparu gwasanaethau o werth uchel i bobl yr ardal. Cydddealltwriaeth, didwylledd a pharch yw'r elfennau pwysicaf sy'n diogelu uniondeb y cyngor, ei aelodau a'i gyflogeion.

Eitem 8

ADRODDIAD: PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH

HYFFORDDIANT AELODAU - 12fed EBRILL 2018

AWDURON: Carey Cartwright, Rheolwr Dysgu a Datblygu, a Cara Williams, Swyddog Datblygu Aelodau

Trosolwg o'r Sefyllfa bresennol

Yn dilyn etholiad Mai 2017, cynhaliwyd dau ddiwrnod o sesiynau Anwytho ar gyfer pob Aelod, gyda rhaglen hyfforddiant cynhwysfawr yn dilyn (gweler Atodiad 1).

Cynigir amrediad o gyfleoedd datblygol sy'n cynnwys elfennau megis gweithdai, cymhelliant (*coaching*) ac e-ddysgu, yn ogystal â hyfforddiant 'traddodiadol'.

Ers Mai 2017, mae Aelodau wedi manteisio ar 35 math gwahanol o gyfleoedd datblygol, gyda 87 o ddigwyddiadau wedi eu cynnal. Yn ogystal â sesiynau i'r Cyngor cyfan, mae'r nifer o ddigwyddiadau yn cynnwys hyfforddiant i niferoedd llai a sesiynau unigol e.e. cymhelliant. Mae hyn yn ymateb i gais i gynnig amryw o ddyddiadau a lleoliadau er mwyn rhoi opsiynau i Aelodau fedru mynychu. Mae niferoedd llai mewn sesiynau hefyd yn rhoi cyfle i bawb gyfrannu a dysgu'n fwy effeithiol.

Yn rhedeg ochr yn ochr â hyn, mae rhaglen datblygu'r Arweinyddiaeth sy'n cynnwys cyfleoedd i arweinwyr a darpar arweinwyr fanteisio ar raglenni Rhanbarthol a Chenedlaethol (nifer drwy CLILC). Yn ogystal â hyn, trefnir gweithdai wedi eu teilwrio gyda ffocws penodol e.e. gweithdy '5 Behaviours of a Cohesive Team' a gomisiynwyd ar gyfer y Cabinet.

Llwyddiannau:

Sesiynau Datblygol: Rydym wedi derbyn adborth positif iawn yn dilyn sesiynau megis '*Siarad yn Gyhoeddus*', '*Darllen yn Gyflym*', '*Cyfyngau Cymdeithasol*' a '*Cyflwyniadau Effeithiol*'.

Cymhelliant un i un: Mae 9 o Aelodau wedi manteisio ar sesiynau, ac mae'r adborth yn awgrymu ei fod yn fuddiol dros ben. Mae un Aelod Cabinet wedi gofyn inni gynnwys dyfyniad o'i brofiad ef o sesiynau cymhelliant:

"Alla'i ddim cyfleu pa mor drawsnewidiol mae'r sesiynau cymhelliant wedi bod i mi fel Aelod newydd o'r Cabinet. Maent wedi bod yn hanfodol i mi ddeall sut dwi'n gallu bod yn effeithiol yn fy rôl newydd fel aelod cabinet, swydd gymhleth mewn system gymhleth. Mi fyswn i'n cyngori unrhyw un i gymryd mantais o'r cyfle i gael cymhelliant un i un, ac 'rydym yn lwcus iawn fel Cyngorwyr bod y cyfle yma i ni fanteisio arno. Mae'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu yma i'n cefnogi ni fel Aelodau i allu cyflawni ein rôl yn effeithiol, er mwyn gallu rhoi'r gwasanaeth gorau i bobl Gwynedd - felly cymerwch fantais o'r cyfleoedd sydd ar gael."

Mentora: Mae 12 Aelod bellach wedi eu hyfforddi i fod yn Fentoriaid. Rydym wedi hysbysu Aelod eraill o hyn, a'u gwahodd i wneud cais am Fentor os ydynt yn dymuno.

Sialensiau:

Mae'n sialens i gyfleu pwysigrwydd a pherthnasedd hyfforddiant i bob Aelod, ac i drefnu sesiynau sy'n gyfleus i bawb. I'r perwyl yma, mae ymateb i rai teitlau wedi bod yn siomedig:

- **Sesiynau 'Amddifadu o Ryddid (DoLS)'** a drefnwyd fel cyfres o sesiynau ar gais Aelodau. Bu'n rhaid canslo dau ddigwyddiad oherwydd niferoedd isel.
- **Sesiynau 'Gwybodaeth am Bobl' (Diogelu Data)** a drefnwyd ar gyfer rhai nad oedd wedi gwneud yr hyfforddiant neu oedd angen 'refresher'. Bu'n rhaid canslo'r ddau sesiwn oherwydd niferoedd isel.

Rhaglen Hyfforddiant 2018/19

Mae'r rhaglen hyfforddiant ar gyfer 2018/19 yn parhau i dyfu ac esblygu (gweler Atodiad 2 am y fersiwn diweddaraf). Mae'r teitlau yn y rhaglen yn seiliedig ar:

- Awgrymiadau gan Aelodau (yn deillio o'r broses mesur effaith a hefyd o gyfweiliadau datblygol unigol). Derbyniwyd yr awgrymiadau canlynol gan Aelodau am deitlau ychwanegol megis: '*Ailgylchu*' (er mwyn i Aelodau allu annog pobl yn eu ward i ailgylchu mwy), mwy o '*Hyfforddiant cyfrifiadurol*', '*Còd Ymddygiad*' (a phrotocol i swyddogion wrth ddelio â Chynghorwyr), '*Rôl Aelod Cabinet neu Aelod Senedd*' (a sut all Aelod gyrraedd lefel Cabinet), '*Cadeirio*' (hyfforddiant bellach)
- Awgrymiadau gan Swyddogion ac Adrannau am eu meysydd arbenigol

Byddem yn ddiolchgar petai'r Pwyllgor yn ystyried y rhaglen bresennol a hoffem eich gwahodd i gynnig unrhyw deitlau datblygol yr hoffech i'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu eu cynnwys ar gyfer yr ail flwyddyn etholiadol.

Cyfweiliadau Datblygol Personol

Cynigir cyfle am sgwrs ddatblygol gyfrinachol (un i un) gyda Swyddogion o'r *Gwasanaeth Democratiaeth*, i roi cyfle i Aelodau adlewyrchu ar eu rôl, ystyried unrhyw feysydd yr hoffent eu datblygu, ac efallai llunio *Rhaglen Ddatblygu Personol*. Gall hyn gynnwys amrediad o feysydd yn ogystal â dulliau/profiadau datblygol. Bydd Swyddog *Dysgu a Datblygu* wedyn yn gweithio hefo unigolion (neu grwpiau) i hwyluso a threfnu cyfleoedd datblygol perthnasol.

Dysgu Drwy Dechnoleg

Fel y nodwyd uchod, cynigir amrediad o ddulliau dysgu gwahanol yn ogystal â hyfforddiant 'traddodiadol'. Mae hyn yn cynnwys datblygu sesiynau dysgu trwy ddulliau technegol, ble medrir cael mynediad atynt o unrhyw le gyda chysylltiad gwe, ar amseroedd sy'n gyfleus i unigolion. Rydym yn datblygu nifer o Webinarau a hefyd cyfres o fodiwlau e-ddysgu. Cylchredwyd neges i annog Aelodau i gwblhau modiwl e-ddysgu '*Trais yn y Cartref*' fel rhan o ymgyrch cenedlaethol (11 o Aelodau wedi gwneud hyn hyd yma). Bysem yn ddiolchgar am gefnogaeth y Pwyllgor i annog Aelodau i ymweld â'r *Porth Aelodau* a chwblhau nifer o fodiwlau e-ddysgu (gan gynnwys '*Trais yn y Cartref*'), ac i adnabod gwirfoddolwyr i dreialu Webinarau pan fyddent wedi eu datblygu.

Mesur Effaith y Dysgu

Er mwyn asesu effaith y dysgu, gofynnwyd i Aelodau ymateb i'r cwestiwn canlynol:

"Ydi'r ddarpariaeth dysgu a datblygu yn eich helpu chi fel Aelod i gyflawni eich rôl yn effeithiol, er mwyn i chi allu rhoi gwasanaeth gwell i bobl Gwynedd?" (Sgôr /10). "Beth fysai'n gwneud 10/10?"

Ers Mai 2017 y sgôr cyfartalog yw 9.5/10 (yn dilyn sgôr ardderchog 9.8/10 ar gyfer 2016-17).

Derbyniwyd amrediad o sylwadau cadarnhaol ac awgrymiadau defnyddiol.

Dylid nodi bod rhai Aelodau yn teimlo nad ydi pob Aelod yn rhoi digon o bwyslais ar bwysigrwydd Dysgu a Datblygu eu hunain, ac y dylai mwy o Aelodau ymdrechu i fynychu'r sesiynau sy'n cael eu trefnu. Efallai yr hoffai'r Pwyllgor ystyried camau y gellid eu cymryd i gyfarch hyn.

Cofnodi Dysgu ac Adroddiadau

Mae'r tîm *Dysgu a Datblygu* wedi bod yn cydweithio gyda TG ers peth amser i greu *Modiwl Datblygu Staff* (MoDS), fel rhan o'r system hunanwasanaeth ehangach. Mae hwn yn adnodd ble y gall Aelodau (mewn amser) allu gweld eu rhaglen ddatblygu a'u cofnod hyfforddiant (sef y dysgu maent wedi ei fynychu).

Bydd hefyd yn adnodd gweinyddol ardderchog, gydag opsiynau ar gyfer creu amrediad ehangach o adroddiadau data.

Hoffem wahodd y Pwyllgor i gynnig awgrymiadau am y data hyfforddiant a'r math o ac adroddiadau data yr hoffent eu derbyn gan y Gwasanaeth – fel y gallwn gynllunio ymlaen ar gyfer hyn.

Adroddiadau gan Aelodau

Mae llawer i'w ddysgu trwy fynychu cyrsiau neu seminarau ar ran y Cyngor, ac os yw hynny'n digwydd, yna mae'n hanfodol fod Aelodau yn adrodd yn ol am yr hyn y maent wedi ei ddysgu. Bu i'r

Cynghorydd Catrin Wager fynychu cynhaldedd 'Merched Mewn Democrataieth' fel aelod o'r pwyllgor hwn. Rhoddir adroddiad ar lafar gan y Cynghorydd.



RHAGLEN DATBLYGU AELODAU ETHOLEDIG ELECTED MEMBERS' DEVELOPMENT PROGRAMME 2017/18



Dyddiad ac amser / Date and time		Digwyddiad / Event	Lleoliad / Location	Arweinwyr / Leaders
Mai 26 May	(10:00 – 12:00)	Cyflwyniad I Gynllunio – Sesiwn I Holl Aelodau	Siambr DAFYDD ORWIG Chamber	Gareth Jones / Rhun ApIared
	(1:30 – 3:30)	Hyfforddiant I Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio / Training for Members of the Planning Committee	Siambr HYWEL DDA Chamber	Gareth Jones / Rhun ApIared
Mehefin 13 June	(diwrnod cyfan/all day)	Anwytho Awdurdod Tân / Fire & Rescue Service Induction	I'w gadarnhau / To be confirmed	I'w gadarnhau / To be confirmed
Mehefin 7 June Tud. 28	(10:00 – 12:30)	Cod Ymddygiad / Code of Conduct	Siambr DAFYDD ORWIG Chamber Siambr Dafydd Orwig	Iwan Evans/Sion Huws
	(10:00 – 12:30)	Gweithdy Anffurfiol Technoleg Gwybodaeth / Informal IT Workshop (niferoedd cyfyngedig o 12 / limited numbers of 12)	Ystafell Ddysgu Enlli Learning Room, Y Ganolfan Ddysgu/The Learning Centre, Caernarfon	Ken Richardson
	(2:00 – 4:00)	Cyllideb y Cyngor / The Council's Budget (niferoedd yn gyfyngedig I 12 / limited numbers of 12)	Ystafell Dwyrdd Room, Galw Gwynedd, Penrhyndeudraeth	Dafydd LI Edwards & Dewi Morgan
Mehefin 14 June	(10:00 – 12:30)	Swyddogaethau'r Pwyllgor Archwilio / The Audit Committee's Functions (Ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Archwilio / For Members of the Audit Committee)	Ystafell Ddysgu ENLLI Learning Room, Y Ganolfan Ddysgu, The Learning Centre, Caernarfon	Luned Fôn Jones & Dewi Morgan
	(1:30 – 3:30)	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 / Wellbeing of Future Generations (Wales) Act 2015	Ystafell Ddysgu ENLLI Learning Room, Y Ganolfan Ddysgu, The Learning Centre, Caernarfon	Janet Roberts
Mehefin 26 June	(10:00 – 12:00)	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol / Wellbeing of Future Generations (Wales) Act 2015	Ystafell DWYRYD Room, Penrhyndeudraeth	Janet Roberts

Dyddiad ac amser / Date and time		Digwyddiad / Event	Lleoliad / Location	Arweinwyr / Leaders
Gorffennaf 5 July	(10:00 – 12:00)	Ffordd Gwynedd	Siambr Dafydd Orwig Chamber	Dilwyn O Williams
	(2:00 – 4:00)	Cod Ymddygiad / Code of Conduct (ail sesiwn l’r rhai a fethodd 7/6/16 / 2 nd session for those who missed 7/6/16)	Siambr Dafydd Orwig Chamber	Iwan Evans/Sion Huws
	(2:30 – 4:30)	Cyllideb y Cyngor / The Council’s Budget (niferoedd yn gyfyngedig I 12 / limited numbers of 12)	Ystafell Ddysgu Enlli Learning Room, Y Ganolfan Ddysgu/The Learning Centre, Caernarfon	Dafydd Edwards/Dewi Morgan
Gorffennaf 14 July	(10:00 – 11:30)	Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi / Information about People : Your Responsibility	Ystafell Deudraeth Room, Penrhyndeudraeth	Helen Mary Parry (Rheolwr Gwybodaeth / Information Manager)
Tud. 29 Gorffennaf 19 July	(10:00 – 11:30)	Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi / Information about People : Your Responsibility	Ystafell Ddysgu ENLLI Learning Room, Y Ganolfan Ddysgu/The Learning Centre	Helen Mary Parry (Rheolwr Gwybodaeth / Information Manager)
	(1:30 – 4:00)	Arwain a Chyfrannu at Bwyllgorau Effeithiol / Leading and Contributing to Effective Committees	Siambr HYWEL DDA Chamber	Arwel Ellis Jones a Iwan Evans
	(1:30 – 3:30)	Gweithdy Anffurfiol Technoleg Gwybodaeth / Informal IT Workshop (i’r rhai a fethodd 7/6/16 / to those who were unable to attend on 7/6/16) (Niferoedd cyfyngedig o 12 / limited numbers of 12)	Ystafell DWYRYD Room, Penrhyndeudraeth	Ken Richardson
Gorffennaf 21 July	(10:00 – 12:30)	Gwneud i Gyfryngau Cymdeithasol weithio i Gynghorwyr / Making Social Media work for Councillors)	Ystafell Ddysgu MAWDDACH Learning Room, Y Ganolfan Ddysgu/The Learning Centre, Caernarfon	Sion Gwynfryn Williams, Sion Huws

Dyddiad ac amser / Date and time		Digwyddiad / Event	Lleoliad / Location	Arweinwyr / Leaders
Medi 5 September	(10:00 – 1:00)	Sgiliau Cwestiynu Craffu / Scrutiny Questioning SKILLS	Ystafell Dwyrdd, Penrhyndeudraeth	Awrel E Jones a Gareth James
Medi 7 September	(10:00 – 12:30)	Côd Ymddygiad – Sesiwn Dilyniant / Code of Conduct – Follow-up session	Ystafell Ddysgu ENLLI Learning Room, Y Ganolfan Ddysgu/The Learning Centre, Caernarfon	Rhun ApGareth/Sion Huws
Medi 15 September	(10:00 – 12:30)	Gwneud i Gyfryngau Cymdeithasol weithio I Gynghorwyr / Making Social Media work for Councillors)	Ystafell Deudraeth Room, Penrhyndeudraeth	Sion Gwynfryn Williams, Sion Huws
Medi 19 September	(2:00 – 4:30)	Sgiliau Cwestiynu Craffu / Scrutiny Questioning Skills	Ystafell Dwyrdd, Penrhyndeudraeth	Arwel E Jones a Gareth James
Medi 20 September	(11:00 – 12:30)	Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi / Information about People : Your Responsibility	Ystafell PERIS Room, Caernarfon	Helen Mary Parry (Rheolwr Gwybodaeth / Information Manager)
	(1:30 – 3:30)	Egwyddorion Addysg / Education Principles	Adeilad YR INSTITIWT Building, Caernarfon	Swyddogion Adran Addysg / Education Department Officers
Medi 27 September	(10:00 – 12:00)	Cynllun Datblygu Ysgol / School Development Plan	Siambwr DAFYDD ORWIG Chamber, Caernarfon	Swyddogion Addysg
Medi 29 September	(9:30 – 12:30) (1:30 – 4:30)	Darllen yn Gyflym / Speed Reading Hyfforddiant trwy gyfrwng y Saesneg / English medium training	Ystafell Ddysgu ENLLI Learning Room, Y Ganolfan Ddysgu, Caernarfon	Clare Forrest (Structured Learning)
Hydref 2 October	(1:30 – 3:30)	Arwain yn Ddiogel / Safe Leadership (Ar gyfer Aelodau newydd ac Aelodau sydd heb fod ar yr Hyfforddiant / For New Members & Members who have not previously attended)	Siambwr HYWEL DDA Chamber	Catrin Love / Gail Warrington

Dyddiad ac amser / Date and time		Digwyddiad / Event	Lleoliad / Location	Arweinwyr / Leaders
Hydref 25 October	(10:00 – 1:00)	Datblygu Sgiliau Mentora / Develop Mentoring Skills	Ystafell Ddysgu ENLLI Learning Room, Y Ganolfan Ddysgu/The Learning Centre, Caernarfon	Mari Elis Roberts (Prifysgol BANGOR University)
Tachwedd 3 November	(09:30 – 3:15)	Ymgysylltu â Chynghorwyr newydd bob Rhanbarth / A Regional Induction Event for New Councillors	Canolfan Fusnes CONWY Business Centre	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Welsh Local Government Association
Tachwedd 8 November	(1:30 – 3:30)	Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb / Your Responsibility for Equality	Ystafell Ddysgu ENLLI Learning Room, Y Ganolfan Ddysgu/The Learning Centre	Delyth Gadlys Williams
Tachwedd 15 November	(10:00 – 12:00)	- RHYDD -		
Tud. 31	(1:30 – 3:30)	Cyfrifoldebau Tai a Phartneriaethau yng Ngwynedd / Housing Responsibilities & Partnerships in Gwynedd	Siambr DAFYDD ORWIG Chamber	Arwel Wyn Owen
	Tachwedd 20 November	(10:00 – 12:30)	Hyfforddiant i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio / Training for Members of the Planning Committee	Ystafell DWYRYD Room, Penrhyndeudraeth
Tachwedd 22 November	(10:00 – 12:00)	Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb / Your Responsibility for Equality	Ystafell Ddysgu Enlli, Y Ganolfan Ddysgu, Caernarfon	Delyth Gadlys Williams
	(1:30 – 3:30)	Polisi Gosod a Digartrefedd / Housing Allocation Policy & Homelessness Duties	Siambr DAFYDD ORWIG Chamber	Arwel Wyn Owen
Rhagfyr 13 December	(10:00 – 12:00)	Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb / Your Responsibility for Equality (WEDI GANSLO OHERWYDD NIFEROEDD ISEL / CANCELLED DUE TO INSUFFICIENT NUMBERS)	Ystafell Deudraeth Room, Penrhyndeudraeth	Delyth Gadlys Williams
Rhagfyr 18 December	(10:00 – 1:00)	Siarad yn Gyhoeddus / Public Speaking (Sesiwn Gymraeg / Welsh Medium Session)	Ystafell Ddysgu ENLLI Learning Room, Y Ganolfan Ddysgu/The Learning Centre, Caernarfon	Bethan Jones Parry

Dyddiad ac amser / Date and time		Digwyddiad / Event	Lleoliad / Location	Arweinwyr / Leaders
Ionawr 10 January	(10:00 – 12:30)	Rhiantu Corfforaethol / Corporate Parenting	Siambr DAFYDD ORWIG Chamber	Marian Parry Hughes
	(1:30 – 3:30)	Arwain yn Ddiogel / Safe Leadership	Siambr HYWEL DDA Chamber	Catrin Love & Gail Warrington
Ionawr 17 January	(09:30 – 12:30)	Datblygu Sgiliau Mentora / Develop Mentoring Skills	Ystafell LLYFNI Room, Pencadlys Gwynedd HQ	Mari Ellis Roberts (Prifysgol BANGOR University)
Ionawr 24 January	(10:00 – 12:30)	Amddifadu o Ryddid / Deprivation of Liberty (DoLs)	Ystafell Ddysgu ENLLI Learning Room, Y Ganolfan Ddysgu/The Learning Centre, Caernarfon	Erin Wyn a Delyth Crisp (Gwasanaethau Cyfreithiol / Legal Service)
Ionawr 31 January	(10:00 – 12:00)	Rôl y Gymraeg yn y Gymuned / The role of Welsh in the Community - RHYDD -	Ystafell Deudraeth Room, Penrhyndeudraeth -	Debbie Anne Williams-Jones a Gwenllian Mair Williams (Hunaniaith) -
Chwefror 2 February	(10:00 – 11:30)	Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi / Information about People : Your Responsibility	Ystafell DEUDRAETH Room, Penrhyndeudraeth	Helen Mary Parry
	(1:30 – 4:00)	Amddifadu o Ryddid / Deprivation of Liberty (DoLs)	Ystafell PRYSOR Room, Penrhyndeudraeth	Erin Wyn a Delyth Crisp (Gwasanaethau Cyfreithiol / Legal Service)
Chwefror 8 February	(1:30 – 4:00)	Amddifadu o Ryddid / Deprivation of Liberty (DoLs)	Ystafell Ddysgu MAWDDACH Learning Room, Y Ganolfan Ddysgu/The Learning Centre, Caernarfon	Erin Wyn a Delyth Crisp (Gwasanaethau Cyfreithiol / Legal Service)
Chwefror 9 February	(10:00 – 1:00)	Siarad yn Gyhoeddus / Public Speaking (Sesiwn Gymraeg / Welsh Medium Session)	Ystafell DEUDRAETH Room, Penrhyndeudraeth	Bethan Jones Parry
Chwefror 16 February	(10:00 – 1:00)	Siarad yn Gyhoeddus / Public Speaking (Sesiwn Saesneg / English Medium Session)	Ystafell Ddysgu ENLLI learning Room, Y Ganolfan Ddysgu/The Learning Centre, Caernarfon	Bethan Jones Parry

Dyddiad ac amser / Date and time		Digwyddiad / Event	Lleoliad / Location	Arweinwyr / Leaders
Chwefror 21 February	(am)	Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi	Siambr HYWEL DDA Chamber, Caernarfon	Helen Mary Parry
	(1:30 – 3:30)	Rôl y Gymraeg yn y Gymuned / The role of Welsh in the Community	Siambr HYWEL DDA Chamber, Caernarfon	Debbie Anne Williams-Jones a Gwenllian Mair Williams (Hunaniaith)
Chwefror 23 February	(10:00 – 4:00)	Delio gyda'r Wasg (Sesiwn peilot - Aelodau Cabinet gyda sesiynau pellach i ddilyn) / Dealing with the Press (Pilot session for Cabinet Members, further sessions to follow)	Ystafell Ddysgu ENLLI Learning Room, Y Ganolfan Ddysgu/The Learning Centre, Caernarfon	Sgript
Mawrth 7 March	(10:00 – 12:30)	Amddifadu o Ryddid / Deprivation of Liberty (DoLS)	Siambr HYWEL DDA Chamber, Caernarfon	Erin Wyn a Delyth Crisp (Gwasanaethau Cyfreithiol / Legal Service)
Mawrth 15 March	(10:00 – 12:30)	Amddifadu o Ryddid / Deprivation of Liberty (DoLS)	Ystafell DWYRYD Room, Penrhyndeudraeth	Erin Wyn a Delyth Crisp (Gwasanaethau Cyfreithiol / Legal Service)
Mawrth 16/30 March	(10:00 – 1:00)	Cyflwyniadau Effeithiol / Effective Presentations (Sesiwn Cymraeg / Welsh Session)	Ystafell Ddysgu MAWDDACH Learning Room	Carey Cartwright & Alun Lloyd Williams
Mawrth 21 March	(10:00 – 1:00)	* WEDI EI GANSLO : NIFEROEDD ISEL * CANCELLED DUE TO INSUFFICIENT NUMBERS * Arwain Cymunedau trwy Newid / Leading Communities through Change (Sesiwn Cymraeg / Welsh Medium session) - RHYDD / FREE -	Ystafell PRYSOR Room, Penrhyndeudraeth	Janet Roberts a Carey Cartwright
Ebrill 9 April	(10:00 – 1:00)	Arwain Cymunedau trwy Newid (Sesiwn Saesneg) / Leading Communities through Change (English Medium Session)	Ystafell Ddysgu ENLLI Learning Room, Y Ganolfan Ddysgu/The Learning Centre, Caernarfon	Janet Roberts & Carey Cartwright



Dyddiadau ychwanegol yn y Calendr / Additional dates in the Calendar



RHAGLEN DATBLYGU AELODAU ETHOLEDIG ELECTED MEMBERS' DEVELOPMENT PROGRAMME 2018/19



Dyddiad ac amser / Date and time		Digwyddiad / Event	Lleoliad / Location	Arweinwyr / Leaders
			Lleoliad / Location	Arweinwyr / Leaders
Mai 2 May	(am)	Codi ymwybyddiaeth o sector breifat yng Ngwynedd – Ymweld â	2/5/18 - Brighter Foods, Tywyn	Sioned E Williams (Pennaeth
Mai 9 May	(am)	busnesau allweddol lleol / Raise awareness of the private Sector in	9/5/18 - Hufenfa De Gwynedd, Y Ffôr	Economi ac Adfywio)
Mai 23 May	(am)	Gwynedd - visiting key local businesses	23/5/18 - DMM, Llanberis	
Mai 16 May Tud. 34	(10:00 – 12:30)	Arwain yn Ddiogel / Safe Leadership	Siambr HYWEL DDA Chamber	Catrin Love & Gail Warrington
	(1:30 – 4:00)	Rhiantu Corfforaethol / Corporate Parenting	Siambr HYWEL Dda Chamber	Rob Jewell
Mehefin 27 June	(10:00 – 12:30)	- RHYDD -	-	
	(pm)	Llinellau Ffôn Uniongyrchol (Gangiau Cyffuriau Cyfundrefnol)– O rai cenedlaethol i rai rhanbarthol i rai lleol / County Lines (Organised Drug Gangs) – From National to Regional to Local	I'w gadarnhau	Brian Nicklin Goruchwyliwr Cudd-wybodaeth yr Heddlu - Force Intelligence Supervisor Gwasanaethau Trosedd - Crime Services
Gorffennaf 11 July	(10:00 – 11:30am)	Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi	Ystafell Ddysgu ENLLI Learning Room, Y Ganolfan Ddysgu/The Learning Centre, Caernarfon	Helen Mary Parry (Rheolwr Gwybodaeth Information Manager)
	(1:00 – 3:00)	Credyd Uniongyrchol / Universal Credit	Ystafell Ddysgu ENLLI Learning Room, Y Ganolfan Ddysgu/The Learning Centre,	Catrin Thomas a Nia Medi Williams

		Caernarfon		
Medi 19 September	(10:00 – 12:00) (pm)	Diogelu Plant ac Oedolion Safeguarding Children & Adults	Siambwr DAFYDD ORWIG Chamber	Dafydd Paul a Manon Trappe
Tachwedd 21 November	(am) (pm)			
Ionawr 9 January	(am) (pm)			
Chwefror 20 February	(am) (pm)			
Mawrth 20 March	(am) (pm)			

Tud. 35



Dyddiadau ychwanegol yn y Calendr / Additional dates in the Calendar

Eitem 9

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democraidaidd
DYDDIAD	12fed Ebrill 2018
PWNC	Adroddiad blynyddol gan y Pennaeth Gwasanaethau Democraidaidd ar ran y Pwyllgor Gwasanaethau Democraidaidd yng nghyswllt cefnogaeth i aelodau
PWRPAS	Cyflwyno drafft o'r adroddiad a fydd i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn ym mis Mai 2018 yn amlinellu'r gefnogaeth sydd wedi ei ddatblygu ac wrthi'n cael ei ddatblygu ar gyfer aelodau.
AWDUR	Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democraidaidd

1. Cyflwynir isod ddrafft o'r adroddiad sydd i'w chyflwyno i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ym mis Mai 2018. Bydd yr adroddiad yn amlinellu'r gefnogaeth i Aelodau sydd wedi ei gynnig hyd yma dros gyfnod y Cyngor hwn ynghyd a'r elfennau sy'n parhau i gael eu datblygu ar gyfer Aelodau Etholedig.
2. Fe welwch o'r adroddiad drafft fod rhai darnau yn parhau i fod angen eu llenwi, a bydd angen diweddarau rhai elfennau yn sgil trafodaethau eraill.
3. Dan y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democraidaidd yn gyfrifol am faterion penodol (dan Adran 11), fel a ganlyn:
 - Cyflawni rôl yr awdurdod lleol i benodi Pennaeth Gwasanaethau Democraidaidd
 - Adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael yng nghyswllt staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democraidaidd, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer gofynion y rôl
 - Cynhyrchu adroddiad, o leiaf pob blwyddyn, i'w chyflwyno i'r Cyngor Llawn yng nghyswllt cefnogaeth i Aelodau.
4. Dymunaf ddiolch i holl aelodau'r Pwyllgor am eich cefnogaeth dros y misoedd diwethaf ac edrychaf ymlaen i gyd-weithio gyda chi ymhellach dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.



ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

- Cefnogaeth i Aelodau
Etholedig Gwynedd



RHOI POBL GWYNEDD YN GANOLOG I BOPETH RYDYM YN EI WNEUD • PUTTING THE
PEOPLE OF GWYNEDD AT THE CENTRE OF EVERYTHING WE DO

RHAGAIR

Bu'n flwyddyn brysur o ganlyniad i etholiadau Llywodraeth Leol ym Mai 2017, ac mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn gyfnod o newid, addasu a dysgu i Aelodau a swyddogion. Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi dangos uchelgais i barhau i ddatblygu'r gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau i weithredu yn eu rol. Mae gennym gyfnod cyffrous ac anodd o'n blaenau wrth geisio datblygu'r gefnogaeth sydd ei hangen o fewn heriau ariannol parhaus.

Dan y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn gyfrifol am faterion penodol (dan Adran 11), fel a ganlyn:

- Cyflawni rôl yr awdurdod lleol i benodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
- Adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael yng nghyswllt staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer gofynion y rôl
- Cynhyrchu adroddiad, o leiaf pob blwyddyn, i'w chyflwyno i'r Cyngor Llawn yng nghyswllt cefnogaeth i Aelodau.

Mae adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau etholedig er mwyn cyflawni y rôl yn rhan greiddiol o fy ngwaith i a gwaith y Pwyllgor, rwy'n diolch yn fawr i bawb am eu mewnbwn ac yn edrych ymlaen at gydwethio dros y blynyddoedd i ddod.



Seaint Owen

**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,
Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol**

Yn dilyn etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2017 croesawyd 75 Aelod i'r Cyngor newydd, gyda 24 o'r Aelodau yn ymuno o'r newydd a 51 o'r Aelodau yn dychwelyd. Mae'r gwaith o adolygu a datblygu'r gefnogaeth sydd ar gael i chi fel Aelodau, er mwyn gweithredu yn llwyddiannus yn eich rôl, yn un barhaus.

Mae'r gwaith a wneir, a'r ddarpariaeth i gefnogi aelodau yn eu rolau, wedi ei asesu yn annibynnol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol eleni. Rwy'n falch o adrodd fod Cyngor Gwynedd wedi llwyddo i ennill Breinlen Cymru ar gyfer cynorthwyo a datblygu Cynghorwyr, sy'n cael ei adnabod ar lafar fel Siarter Aelodau.

Pa gefnogaeth sy'n cael ei gynnig i Aelodau?

ETHOLIADAU LLYWODRAETH LEOL 2017



- ❖ Gwnaethpwyd cryn waith yn paratoi tuag at yr etholiadau Llywodraeth Leol a gynhaliwyd ym mis Mai 2017. Bu i aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd roi mewnbwn i'r trefniadau paratoi, gan gynnwys sesiynau paratoi ar gyfer darpar ymgeiswyr, datblygu'r safle we i rannu gwybodaeth gyda darpar Aelodau, ynghyd a chreu fideo byr i geisio esbonio rôl Cynghorydd yn syml.
- ❖ Ar ddydd Iau, Mai 4ydd, llwyddwyd i gyhoeddi canlyniadau'r etholiad o'r ddwy ganolfan gyfri yn gyflym iawn, fel bo aelodau'r cyhoedd yn gallu dilyn y datblygiadau fel ag yr roeddent yn digwydd.
- ❖ Eleni hefyd, cynhaliwyd dyddiau croesawu ar ffurf ychydig yn wahanol i'r gorffennol, a hynny yn seiliedig ar wrando ar adborth Cynghorwyr oedd yn newydd yn 2012. Mae ceisio sicrhau y cydbwysedd rhwng cyflwyno digon o wybodaeth i alluogi Aelodau i fwrw ymlaen gyda'r gwaith, yn erbyn boddi Aelodau gyda gormod o wybodaeth yn un anodd iawn i'w daro. Bu'r adborth o'r sesiynau yn hynod bositif.
- ❖ Fodd bynnag, mae trafodaethau wedi eu cynnal gyda Cynghorwyr a staff i adnabod yr elfennau da, ac hefyd i adnabod materion ple gellid eu gwella ar gyfer cyfnod yn dilyn etholiadau Llywodraeth Leol yn 2022!
- ❖ Diolch i bawb am eu gwaith caled yn y cyfnod yma.

TREFNIADAU LLYWODRAETHU



- Sefydlwyd Cabinet newydd yng Nghyngor Gwynedd dan arweiniad yr Arweinydd newydd, y Cyngorydd Dyfrig Siencyn. Mae'r Arweinydd wedi bod yn gefnogol iawn i ddatblygu rhaglen hyfforddiant er mwyn datblygu sgiliau yr Aelodau Cabinet ymhellach ac i'w galluogi i weithredu yn effeithiol yn eu rôl.
- Adolygwyd y trefniadau craffu yn 2016/17, gyda'r Cyngor yn penderfynu ar y trefniadau newydd yn ei gyfarfod ar 3ydd o Fawrth 2017, i fod yn weithredol o fis Mai 2017 ymlaen. Mae'r trefniadau newydd wedi eu sefydlu, ond fel gydag unrhyw drefn newydd, mae angen addasu rhywfaint wrth fynd ymlaen.
- Mae rôl y Fforwm Craffu yn blaenoriaethu'r materion cywir i'w craffu yn allweddol, ynghyd a'r berthynas rhwng yr Aelodau Cabinet a'r Cadeiryddion/Is-gadeiryddion Craffu. Gwelwyd datblygiad o ran mwy o flaen-graffu, ac mae lle i adeiladu ar hyn i'r dyfodol.
- Hoffwn gymryd y cyfle hwn i atgoffa'r holl Aelodau y gallant godi mater i gael ei graffu trwy gysylltu gyda Cadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol. Bydd yr eitem wedyn yn cael ei gynnwys ar log gwyntyllu, fel bo penderfyniad ar y ffordd ymlaen – boed yn eitem i'w graffu yn ffurfiol mewn pwyllgor, yn ymchwiliad, ynteu ystyried a oes ateb gwahanol ar gyfer rhoi sylw i'w mater.
- Wrth edrych ymlaen, rydym yn awyddus i roi sylw i'r neges sydd wedi ei derbyn ynghylch yr angen i gael sesiynau anffurfiol i alluogi'r holl Aelodau i gwrdd a chael gwybodaeth am bwnc penodol. Cafwyd enghraifft yn ddiweddar trwy'r sesiwn anffurfiol lle roedd cyfle i ddysgu mwy am y datblygaidau TWF Economaidd Gogledd Cymru.

DARPARIAETH ELECTRONEG



- Ers 2012 mae'r Cyngor wedi annog cyfathrebu yn electroneg gyda Chynghorwyr er mwyn sicrhau fod gwybodaeth yn cael ei dderbyn yn gyflym ac hefyd er mwyn lleihau ôl-troed carbon y Cyngor trwy leihau'r defnydd o bapur.
- Bellach mae gan y mwyafrif llethol o Aelodau gyfarpar electroneg er mwyn eu galluogi i dderbyn gwybodaeth ac i gynnal eu gwaith fel Cynghorydd. Mae'r peiriannau newydd yn gwneud llawer mwy na'r ipads blaenorol, oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer darllen dogfennaeth pwyllgorau, derbyn ebyst a rheoli'r calendr yn unig. Mae'r peiriannau newydd yn galluogi Cynghorwyr i wneud eu gwaith yn eu ward, cadw eu dogfennaeth ac yn y blaen, yn ogystal a derbyn ebyst a darllen dogfennau pwyllgor.
- Fodd bynnag, mae rhywfaint o drafferthion wedi bod gyda'r ddarpariaeth newydd. O ganlyniad i ymgymryd a gwaith er mwyn ceisio deall y sefyllfa yn well, rwyf wedi adrodd ar y trafferthion i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd yn Ebrill 2018 gan nodi fod materion yn amrywio o drafferthion gyda'r teclyn neu'r meddalwedd, yr angen am fwy o hyfforddiant neu "tips" ar gyfer gwneud gwell defnydd o'r ddarpariaeth, i rwystredigaeth benodol gyda'r "app" ebost. Mae aelodau'r Pwyllgor wedi derbyn adroddiad ar ddatrysiadau posib, bydd angen diweddarau yn dilyn cyfarfod y pwyllgor ar 12/04/2018.

CYFATHREBU / GWYBODAETH

- Un o'r prif faterion a godwyd gan yr Aelodau Etholedig cyn Mai 2017 oedd yr angen i allu derbyn gwybodaeth o un ffynhonell yn amserol, ac i fod yn gallu mynd i chwilio am wybodaeth drostynt eu hunain. I'r perwyl hwn y datblygwyd y Porth.
- Mae'r Porth yn cynnig nifer fawr o elfennau amrywiol i gynorthwyo Aelodau wrth eu gwaith.
 - tudalen 'newyddion' yn cynnwys y wybodaeth diweddaraf,
 - deunydd e-ddysgu ynghyd a chopiau o unrhyw sleidiau o sesiynau hyfforddiant er mwyn galluogi dysgu o bell
 - hawlio costau teithio
 - llyfrgell gwybodaeth
 - cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn aml


- Fodd bynnag, mae Is-Grwp o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi adnabod eisoes fod y defnydd o'r Porth yn gyffredinol isel. Mae hyn oherwydd amrywiol resymau, gan gynnwys y ddau brif reswm sef, diffyg ymwybyddiaeth o gynnwys y Porth a'r ffaith nad yw mor hawdd ei ddefnyddio a safleoedd gwe eraill.
- Codwyd ymwybyddiaeth yr Aelodau i gynnwys y Porth yn anffurfiol yn ystod sesiynau'r Fforymau/Pwyllgor Ardal ym mis Mawrth. Cafwyd sylwadau adeiladol ar sut i wella'r ddarpariaeth a gobeithio bydd mwy o ddefnydd o'r adnodd i'r dyfodol.
- Yn ddi-os, bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cadw llygad ar yr elfen yma ac yn ceisio adnabod meysydd i ddabtlygu ymhellach os oes angen. Mae'r gwaith hwn yn anatod yn parhau i ddatblygu.
- Ar y llaw arall, fel a nodwyd uchod, mae cyfleon hefyd i fod yn cyfathrebu ar faterion penodol mewn ffyrdd gwahanol. Rydym wrthi'n ystyried y ffordd ymlaen ar gyfer cynnal sesiynau anffurfiol fydd yn galluogi aelodau i gael sgwrs am bwnc penodol tu allan i ffiniau pwyllgor. Bydd y gwaith hwn yn cael ei yrru ymlaen yn 2018/19.
- Mae'r Porth hefyd yn cynnwys gwybodeth cyfredol am swyddogion o fewn ein gwasanaethau a sut y gellir cysylltu â hwy gydag ymholiad. Derbyniwyd sylwadau ynghylch trafferthion i sicrhau ymateb mewn ambell faes, ac mae gwaith wedi digwydd i geisio cywiro'r sefyllfa. Mae trefniadau y Cyngor yn glir y dylid ceisio ymateb trwy gysylltu yn anffurfiol yn y lle cyntaf gyda'r swyddog perthnasol, a gellir hefyd cael sgwrs hefo'r Aelod Cabinet perthnasol. Mae'r protocol cyswllt Aelod/Swyddog wedi ei adolygu yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau eglurder ar y mater.

**LLEOLIADAU CYFARFOD A SICHAU
DEMOCRATIAETH MWY AGORED**



- Er mwyn sicrhau democratiaeth mwy agored, mae'n allweddol bwysig fod aelodau o'r cyhoedd yn ymwybodol o'r hyn fydd yn cael ei drafod yng ngwahanol bwylgorau'r Cyngor, a hynny o fewn amser rhesymol. Llwyddir i sicrhau fod 96% o bapurau pwyllgor yn cael eu cyhoeddi yn electroneg 6 diwrnod gwaith clir cyn dyddiad y Pwyllgor. Mae'r papurau ar gael yn ddwy-ieithog ar safle we'r Cyngor ac ar Modern.gov.
- Elfennau arall o sicrhau mynediad i'r cyhoedd a chynnal democratiaeth mwy agored yw cynllun y Cyngor i we-ddarlledu cyfarfodydd rhai pwyllgorau penodol. Mae nifer wedi adrodd fod y

gallu i wyllo'r digwyddiadau dros y cyfrwng yma yn eu cynorthwyo rhag gorfod teithio a bod yn bresennol mewn pwyllgor.



Unwaith eto, gwelir fod Cyngor Gwynedd yn arwain y gad trwy sicrhau fod darpariaeth dwy-ieithog ar gael ar gyfer y gwe-ddarlledu .

- Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod ei bod yn heriol i Aelodau fod yn bresennol mewn rhai cyfarfodydd. Mae nifer o sesiynau anffurfiol (megis ymgynghori ar gynnwys Cynllun y Cyngor, sesiwn anffurfiol Seminar Cyllid i'r Aelodau) wedi eu cynnal ar ddyddiadau gwahanol ac mewn lleoliadau gwahanol ar draws y Sir i geisio bod yn fwy hyblyg i Aelodau.
- Yn ogystal, mae nifer o sesiynau hyfforddiant yn cael eu cynnal mewn ffyrdd gwahanol. Gwnaethpwyd defnydd o'r fforymau/ pwyllgor ardal ar gyfer hyrwyddo hyn, ynghyd a chynnig sesiynau hyfforddiant ar-lein, webinarau a recordio ambell sesiwn hyfforddiant.
- Gan ein bod yn sir ddaearyddol fawr, rydym angen datblygu ein harfer o ddefnyddio mwy ar y ddarpariaeth fideo gynadledda. Hefyd, mae darpariaeth 'Skype' ar gael ar beiriannau'r Aelodau, ac felly mae'n synhwyrol fod cynnal mwy o waith ar ein gallu i ddefnyddio hyn er mwyn cysylltu gydag Aelodau ar gyfer cyfarfodydd byr yn digwydd yn ystod 2018/19.

HYFFORDDIANT

- Cynigir rhaglen helaeth o hyfforddiant yn seiliedig ar awgrymiadau gan:
 - Aelodau unigol
 - Pwyllgor Democratiaeth (Is-Grwp)
 - Swyddogion ac Adrannau (meysydd arbenigol)
- Mae cynnwys y rhaglen ar gyfer 2018/19 yn parhau i dyfu ac esblygu
- Mae rhaglen datblygu'r Arweinyddiaeth yn rhedeg ochr yn ochr a hyn. Mae'n cynnwys rhoi cyfleoedd i arweinwyr a darpar-arweinwyr fanteisio ar raglenni Rhanbarthol a Chenedlaethol (drwy CLILC). Yn ogystal a hyn, trefnir gweithdai wedi eu teilwrio i Gyngor Gwynedd e.e. gweithdy *'5 Behaviours of a Highly Effective Team'* a gomisiynwyd ar gyfer y Cabinet
- Cynigir amrediad o gyfleoedd datblygol sy'n cynnwys hyfforddiant 'traddodiadol', a dulliau dysgu eraill megis gweithdai, cymhelliant (*coaching*), mentora, ymweliadau ac e-ddysgu.
 - Mae teitlau datblygol mewn meysydd arbenigol e.e. *Cynllunio*, a hefyd teitlau datblygu personol e.e. *Gwneud Cyflwyniadau*.
 - Cynhelir sesiynau i'r Cyngor cyfan ac mae'r nifer o ddigwyddiadau yn cynnwys hyfforddiant i niferoedd llai yn ogystal a sesiynau unigol e.e. cymhelliant. Mae hyn yn rhoi mwy o opsiynau i Aelodau fedru mynychu, tra bo niferoedd llai mewn sesiynau hefyd yn rhoi cyfle i bawb gyfrannu a dysgu'n fwy effeithiol.
 - Mae sesiynau dysgu trwy ddulliau technegol yn cael eu datblygu, fydd ar gael o unrhyw le gyda chysylltiad gwe ar amseroedd sy'n gyfleus i unigolion. Mae hyn yn cynnwys cyfres o fodiwlau e-ddysgu a Webinarsau.
 - Cynigir cyfweiliadau datblygol (un i un) gyda Swyddogion, i roi cyfle i Aelodau adlewyrchu ar eu rôl, ac ystyried unrhyw feysydd yr hoffent eu datblygu, a llunio *Rhaglen Ddatblygu Personol*.
- Er mwyn asesu effaith y dysgu, gofynnir i Aelodau ymateb i'r cwestiwn: *"Ydi'r ddarpariaeth dysgu a datblygu yn eich helpu chi fel Aelod i gyflawni eich rôl yn effeithiol, er mwyn i chi allu rhoi gwasanaeth gwell i bobl Gwynedd?"* a *"Sut fedrwn wella'r ddarpariaeth?"*
 - Sgôr cyfartalog ar gyfer 2016-17: 9.8/10
- Cofnodir pob hyfforddiant a fynychwyd gan Aelodau, ac mae'r wybodaeth ar gael iddynt ar gyfer creu Adroddiadau Blyneddol.

- Mae'r tîm *Dysgu a Datblygu* yn cydweithio gyda'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth i greu adnodd ble y gall Aelodau (mewn amser) allu gweld eu rhaglen ddatblygu a'u cofnod hyfforddiant personol.
- Er mwyn adnabod y rhaglen hyfforddiant i'r dyfodol, gwahoddir unrhyw Aelod i gael sgwrs gyda swyddog cymwys i adnabod rhaglen hyfforddiant personol ar eu cyfer. Bu i nifer o'r Aelodau newydd fanteisio ar y cynnig o sgwrs, a bu i feysydd datblygiad cyffredin gael eu hadnabod a'u bwydo i mewn i'r rhaglen hyfforddiant sydd ar gael i'r holl Aelodau. Os oes unrhyw Aelod yn dymuno sgwrs am eich rhaglen hyfforddiant, yna cysylltwch ar bob cyfrif â mi neu Vera Jones, fel Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd.

DATBLYGIADAU ERAILL

- Cyhoeddi cyflogau a chostau Aelodau yn unol â gofynion, a llwyddo i ddylanwadu ar y Pwyllgor Annibynnol ar Gydabyddiaeth Ariannol i addasu eu canllawiau.
- Datblygu trefniadau symlach i alluogi Aelodau sy'n dymuno cynhyrchu adroddiad blynyddol i wneud hynny, gan wneud darpariaeth i'w cyhoeddi ar y safle we fel bo modd i bobl Gwynedd weld beth mae eu Haelod lleol wedi bod yn ei wneud.

Eitem 10

CYFARFOD	PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH
DYDDIAD	9 EBRILL, 2018
PWNC	CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU ETHOLEDIG
PWRPAS	Ceisio barn y Pwyllgor ar ddewisiadau gyda chydabyddiaeth ariannol i aelodau etholedig
AWDUR	Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democraidd

CEFNDIR

1. Mae adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol bellach wedi ei chyhoeddi (Chwefror 2018). Bu i Aelodau'r Pwyllgor drafod a chyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad drafft gan y Panel yn eu cyfarfod ar y 26ain o Hydref 2017. Bydd adroddiad y Panel yn cael ei roi ar waith ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19.
 - 1.1 Yn dilyn etholiadau 2017, bu i'r Panel ymweld â phob Awdurdod i drafod gwahanol agweddau o gydnabyddiaeth i Aelodau. Mae argymhellion y Panel yn seiliedig ar y trafodaethau hynny a bellach wedi eu cyhoeddi. Gellir gweld copi o'r adroddiad terfynol drwy ddilyn y ddolen isod:

[Adroddiad Blynyddol Panel Cydnabyddiaeth Ariannol 2018](#)

- 1.2 Prif bwyntiau o'r adroddiad:
 - Cynnydd o £200 yn y cyflog sylfaenol i'r holl Aelodau etholedig (codi o £13,400 i £13,600 – cyfateb i 1.49%) o Ebrill 2018
 - Dim newid yng nghyflogau'r Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd
 - Diddymu'r trefniant dwy haen/lefel o gydnabyddiaeth ar gyfer Aelodau'r Cabinet a Chadeiryddion Pwyllgorau.
 - Gosod Aelodau Cabinet ar UN lefel cyflog (£29,300)
 - Gosod Cadeiryddion Pwyllgorau ar UN lefel cyflog (£22,300)(Bydd y cyflog sylfaenol yn gynwysedig yn y cyflog).
 - Cais gan y Panel i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd annog aelodau i hawlio ad-daliadau costau gofal fel nad yw'r Aelodau dan sylw'n profi anfantais ariannol.

Y MATER SYDD GERBRON

2. Mae dyfarniadau'r Panel Cydnabyddiaeth Ariannol yn rhwymo Cynghorau i wneud y taliadau a bennir ganddynt. Yr unig ffordd arferol i beidio â gwneud y taliadau hynny yw i Aelod unigol ddatgan nad yw am dderbyn y cyfan neu gyfran o'r taliadau trwy gysylltu yn uniongyrchol a Phennaeth y Gwasanaethau Democraidd.

2.1 Cadeiryddion Pwyllgorau

Mae cyfrifoldeb ar y Cyngor i ystyried a oes gwahaniaeth yng nghyfrifoldebau Cadeiryddion Pwyllgorau. Yn unol ag adroddiad y Panel, gosodir cyfyngiad ar y nifer o uwch-gyflogau y mae modd eu talu. Y cyfyngiad ar gyfer Gwynedd yw **18** ac ar sail penderfyniadau blaenorol y Cyngor, fe'i telir i'r canlynol:

- Arweinydd
- Dirprwy Arweinydd
- 8 aelod arall o'r Cabinet
- Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf
- Cadeiryddion Pwyllgorau
 - Pwyllgor Craffu (x3)
 - Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
 - Pwyllgor Cynllunio
 - Pwyllgor Trwyddedu (Canolog a Chyffredinol yn cael ei gyfrif fel un Pwyllgor)
 - Pwyllgor Pensiynau

2.2 Rhaid hefyd ystyried cyfrifoldebau Cadeiryddion Pwyllgorau eraill sydd ddim yn derbyn cydnabyddiaeth arbennig megis Pwyllgor Apelau Cyflogaeth, Y Pwyllgor Iaith a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Gwnaed arolwg syml i geisio gwybodaeth am lwyth gwaith Cadeiryddion Pwyllgorau ym mlwyddyn gyntaf y Cyngor newydd. Gellid ystyried y wybodaeth (Atodiad 1) i weld a oes lle i amrywio penderfyniadau blaenorol y Cyngor.

2.3 Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Cyngor (Cyflogau Dinesig)

Yng nghyd-destun Cadeiryddion ac Is gadeiryddion y Cyngor amlygodd y Panel bod llawer o Gynghorau yn gosod cyflogau dinesig ar lefelau grwpiau poblogaeth (A, B ac C - Gwynedd yn Grŵp B). Ystyriwyd nad oedd hyn o reidrwydd yn adlewyrchu cyfrifoldebau penodol oedd yn gysylltiedig â'r rolau. O ganlyniad, mae'r Panel wedi pennu tair lefel o gyflog dinesig (gweler y tabl isod) y gellid eu talu.

Rhaid i bob Awdurdod benderfynu pa lefel (os o gwbl) a fydd yn cael ei dalu ar gyfer y rolau hyn yn unol â ffactorau lleol. Er enghraifft gellid talu i Gadeirydd Cyngor bychan ar y gyfradd uwch, tra gellid talu i Gadeirydd Cyngor mawr ar y gyfradd isaf. Gallai cyfraddau taliadau i Is-gadeirydd amrywio yn yr un modd. Mae hyn yn ei gwneud yn bosib talu i Gadeirydd ac Is-gadeirydd yn yr un Awdurdod ar wahanol lefelau.

Yng Ngwynedd, yn ogystal â chadeirio cyfarfodydd o'r Cyngor Llawn, y pennaeth dinesig (Cadeirydd y Cyngor) yw 'dinesydd cyntaf' a 'llysgennad' yr Awdurdod, sydd yn cynrychioli'r Cyngor ar bob math o sefydliadau a chyrrff allanol.

Lefel	Cadeirydd y Cyngor	Is Gadeirydd y Cyngor
1	£24,300	£18,300
2	£21,800	£16,300
3	£19,300	£14,300

** Bydd y cyflog sylfaenol (£13,600) yn gynwysedig yn y cyflog dinesig.*

ARGYMHELLIAD

3. Ceisir barn y Pwyllgor er mwyn cyflwyno argymhelliad i gyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn ynglŷn â thaliadau Aelodau Etholedig ym mlwyddyn 2018-2019.

CYFRIFOLDEBAU CADEIRYDDION PWYLLGORAU 2017/2018

PWYLLGOR	RHAGLENNU	GWIR	CYFRIFOLDEBAU YCHWANEGOL
PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI	5	5	FFORWM CRAFFU X 4 CYFARFODYDD GYDA PENNAETHIAID YR ADRAN x 3 SESIWN TWF X 1 CYFARFODYDD MONITRO PERFFORMIAD (dewisol)
PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU	5	5	FFORWM CRAFFU X 4 YMCHWILIAD CRAFFU (dewisol)
PWYLLGOR CRAFFU GOFAL	5	4	FFORWM CRAFFU X 4 CYFARFODYDD GYDA PENNAETHIAID YR ADRAN x 3
PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU	7	7	FFORWM CRAFFU X 4 TIM RHEOLI CYLLID X 3 CYFLWYNIADAU + PANEL CYFWELD X 2 YMCHWILIAD CRAFFU (dewisol)
PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG	4	4	IS BWYLLGORAU TRWYDDEDU x 2
PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL	4	4	IS BWYLLGORAU TRWYDDEDU x 6 YMGYNGHORI AR UNRHYW GAIS TACSI TU ALLAN I BOLISI – CYFARTALEDD 1-2 GAIS YR WYTHNOS
PWYLLGOR CYNLLUNIO	14	14	YMWELIADAU SAFLE CEISIADAU CYNLLUNIO HYFFORDDIANT X 3
PWYLLGOR PENSIYNAU	5	5	ARSYLWI BWRDD PENSIWN X 4 PANEL BUDDSODDI x 3 CYD-BWYLLGOR PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU x 4 HYFFORDDIANT / CYNHADLEDDAU x 3
PWYLLGOR APELAU CYFLOGAETH	10	4	HYFFORDDIANT X 1
PWYLLGOR GWASANETHAU DEMOCRATAIDD	4	3	MYNYCHU CYFARFODYDD LLANDRINDOD x 2 IS GRWP PORTH A SURFACE (dewisol)
PWYLLGOR SAFONAU	4	3	MYNYCHU FFORWM SAFONAU GOGLEDD CYMRU X 1 CYNHADLEDD PWYLLGOR SAFONAU CYMRU X 1
PWYLLGOR IAITH	4	4	
CADEIRYDD Y CYNGOR	6	7	SEREMONI DINASYDDIAETH x 12 YMWELIADAU A CHYFARFODYDD SWYDDOGOL (Meh – Medi oddeutu 16 digwyddiad)

Eitem 11

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	12 Ebrill 2018
PWNC	Adroddiadau Blynyddol Aelodau Etholedig
PWRPAS	Gwybodaeth ar gyfer cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol Aelodau Etholedig ar gyfer 2017/18.
AWDUR	Vera Jones Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

1. CEFNDIR

1.1 Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd eisoes yn ymwybodol fod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn nodi:

Rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau:

- I bob person sy'n aelod o'r awdurdod i lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r awdurdod yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi,
- i bob person sy'n aelod o weithrediaeth yr awdurdod lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r weithrediaeth yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi; ac
- i'r awdurdod gyhoeddi pob adroddiad blynyddol sy'n cael ei lunio gan ei aelodau a chan aelodau ei weithrediaeth.

1.2 Bwriad yr Adroddiadau Blynyddol gan yr Aelodau Etholedig yw gwella cyfathrebu rhyngddynt â'r cyhoedd. Dywedodd y Gweinidog Llywodraeth Leol y byddai'r adroddiadau yn gyfrwng i wella dealltwriaeth y cyhoedd o'r hyn y mae eu haelodau lleol yn ei wneud a'r rôl bwysig sydd ganddynt, gan alluogi'r cyhoedd i ddod o hyd i wybodaeth am weithgarwch eu cynghorydd lleol.

1.3 Un ffactor pwysig i'w gadw mewn cof yw'r cyswllt rhwng yr adroddiadau blynyddol a'r papur gwyn.

1.4 I atgoffa'r Aelodau, mae'r canllawiau gwreiddiol a dderbyniwyd wedi eu cynnwys yn **Atodiad A**.

2. ADRODDIADAU BLYNYDDOL DROS Y BLYNYDDOEDD DIWETHAF

2.1 Nodir isod y nifer o Aelodau etholedig a ddewisodd gyhoeddi adroddiadau blynyddol dros y blynyddoedd diwethaf:

2012/13	8 adroddiad (peilot o'r drefn)
2013/14	26 adroddiad (gan ddefnyddio templed y tro cyntaf)
2014/15	39 adroddiad
2015/16	29 adroddiad

2.2 Gellir gweld yr adroddiadau trwy ddilyn y ddolen isod:
<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Cynghorwyr-a-phwyllgorau/Sut-maer-Cyngor-yn-gweithio/Adroddiadau-Blynyddol.aspx>

2.3 Gweler yn amgaaedig esiampl o dempled i'w ystyried ar gyfer cynhyrchu'r adroddiadau blynyddol – **Atodiad B**.

2.4 **AMSERLEN A CHAMAU NESAF**

Bwriedir dilyn yr amserlen ganlynol ar gyfer cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol 2017/18:

- **Erbyn diwedd Ebrill** - Bydd swyddogion y Gwasanaeth Democrataidd yn gohebu gyda holl Aelodau'r Cyngor i'w hatgoffa o'r canllawiau ynghyd â chylchredeg templed ar gyfer llunio'r adroddiad blynyddol.
- **Erbyn diwedd Mai** - Gofynnir i Aelodau gyflwyno adroddiadau drafft mewn un iaith i'r Gwasanaeth Democrataidd ar gyfer eu gwirio. Yn dilyn cytuno ar y fersiwn derfynol bydd y Gwasanaeth yn trefnu cyfieithiad o'r adroddiad blynyddol.
- **Erbyn diwedd Gorffennaf** – Cwblhau a chyhoeddi'r adroddiadau blynyddol ar wefan y Cyngor.

3. **ARGYMHELLIAD:**

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd:

- ystyried yr uchod a chynnig sylwadau ar y drefn
- mabwysiadu templed Atodiad B (yn unol ag unrhyw awgrymiadau / newidiadau a wneir i'r cynnwys yn ystod y cyfarfod)
- cymeradwyo'r amserlen fel a nodir yn 2.4 uchod.

ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU O AWDURDOD LLEOL

Cyflwyniad

Mae Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (“y Mesur”) yn cynnwys darpariaethau a fwriadwyd i gryfhau democratiaeth leol. Mae Pennod 1 o’r Rhan honno’n ymwneud â’r gefnogaeth a roddir i aelodau o awdurdod lleol ac mae adran 5 o’r bennod honno’n cyfeirio at baratoi adroddiadau blynyddol ar gyfer yr aelodau hyn. Cyhoeddir y canllawiau statudol hyn o dan adran 5(4) o’r Mesur. Mae’r canllawiau yn ymwneud â threfniadau awdurdodau lleol i lunio adroddiadau blynyddol.

Yr hyn sy’n ofynnol yn ôl y Mesur

Mae adran 5 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol (awdurdodau lleol) sicrhau bod pob un o’u haelodau etholedig yn gallu llunio adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau fel aelod o’r cyngor yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Mae hyn yn cynnwys galluogi unrhyw aelod o weithrediaeth y cyngor i adrodd ar ei weithgareddau fel aelod o’r weithrediaeth. Rhaid i’r cyngor dan sylw gyhoeddi unrhyw adroddiadau y bydd aelodau o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn eu llunio. Gall yr awdurdod lleol bennu amodau/terfynau ar yr hyn sy’n cael ei gynnwys mewn adroddiad.

Rhaid i’r awdurdod lleol roi cyhoeddusrwydd i’w drefniadau ar gyfer cyhoeddi adroddiadau blynyddol, ac wrth wneud y trefniadau hynny, rhaid iddo roi sylw i’r canllawiau hyn.

Canllawiau

Dyletswyddau awdurdod lleol - Rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau sy’n galluogi ei aelodau i lunio adroddiadau blynyddol. Mae hyn yn golygu bod rhaid iddo ddweud wrth ei aelodau sut i’w llunio ac erbyn pryd i’w llunio.

Mae’r Mesur, yn adran 8 a’r adrannau sy’n dilyn, yn nodi mai’r Pennaeth Gwasanaethau Democraidaidd sy’n cyflawni swyddogaethau gwasanaethau democraidaidd, fel y’u diffinnir yn adran 9. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth i roi cymorth a chyngor i aelodau i’w cynorthwyo i gyflawni eu swyddogaethau, ac mae trefnu proses yr adroddiadau blynyddol yn perthyn i’r categori hwn. Mae’r Mesur yn atal y Pennaeth Gwasanaethau Democraidaidd rhag rhoi cymorth a chyngor i aelod yn ymwneud â chyflawni ei swyddogaethau gweithredol fel aelod o weithrediaeth. Er hynny, nid yw llunio adroddiad blynyddol yn swyddogaeth weithredol ynddi’i hun, hyd yn oed os yw’n cyfeirio at weithgareddau’r cynghorydd fel aelod o’r weithrediaeth.

Cyhoeddi adroddiadau

Mater i’r awdurdod lleol yw penderfynu sut y bydd yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol. Disgwylir i’r awdurdod gynnwys dolen i adroddiadau blynyddol yr aelodau, o leiaf, a hynny ar y rhan honno o wefan yr awdurdod sy’n dangos manylion aelodau

unigol. Nid oes disgwyl i'r awdurdod drefnu unrhyw gyhoedduswydd y tu hwnt i hyn, ac os yw'n penderfynu rhoi cyhoedduswydd pellach i'r adroddiadau, dylai ofalu ei fod yn gwneud yr un ddarpariaeth ar gyfer pob aelod. Felly, os bydd aelod yn gofyn i awdurdod roi mwy o gyhoedduswydd i'w adroddiad, dylid gwrthod y cais hwnnw oni bai fod mwy o gyhoedduswydd yn cael ei roi i adroddiad pob aelod.

Dylai awdurdodau lleol hefyd sicrhau bod eu gwefan yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â chyflwyno adroddiadau blynyddol a sut y gall aelodau'r cyhoedd eu gweld.

Cynnwys yr adroddiadau

Prif bwrpas yr adroddiadau yw galluogi aelodau'r cyhoedd i ddod o hyd i wybodaeth am weithgarwch eu cynghorydd lleol. Gall awdurdodau lleol roi eu cyfyngiadau eu hunain ar gynnwys adroddiadau. Dim ond gwybodaeth ffeithiol y dylai adroddiadau blynyddol ei chynnwys. Mae hynny'n awgrymu mai gwybodaeth am gyfarfodydd, digwyddiadau, cynadleddau ac ati a fynychwyd gan y cynghorydd y dylid ei chynnwys yn bennaf, ynghyd ag unrhyw weithgareddau hyfforddi a datblygu. Er y gallai fod yn dderbyniol cynnwys gwybodaeth fod aelod "wedi gwneud sylwadau ar ran yr ymgyrch i achub yr ysbyty lleol yn y ffyrdd canlynol", ni fyddai'n dderbyniol dweud fod aelod "wedi llwyddo i achub yr ysbyty lleol yn sgil ei ymdrechion ar ran ei etholwyr."

Yn yr un modd, dylid osgoi cynnwys gwybodaeth mewn adroddiadau yn ymwneud â gweithgareddau a gwblhaodd yr aelod y tu hwnt i'w rôl fel cynghorydd. Felly, er y byddai'n dderbyniol cynnwys gwybodaeth am araith a roddodd aelod mewn cynhadledd yr oedd yn ei mynychu yn rhinwedd ei rôl yn y cyngor, ni fyddai'n dderbyniol cyfeirio at araith a roddodd mewn cynhadledd plaid wleidyddol, er enghraifft, ac yntau yno fel cynrychiolydd cangen leol ei blaid.

Dylid gofalu hefyd nad yw'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth y gellid ei dehongli fel beirniadaeth o aelod arall. Er enghraifft, ni fyddai'n dderbyniol i aelod gymharu ei bresenoldeb neu ei weithgareddau â rhai aelod arall neu aelodau eraill.

Awgrymir y dylid cynnwys yr eitemau safonol canlynol:

- Rôl a chyfrifoldebau – gan gynnwys manylion aelodaeth o bwyllgorau a chyrrff allanol, cofnodion presenoldeb yn y rhain ac yn y cyngor llawn.
- Gweithgarwch lleol – manylion unrhyw gymorthfeydd a gynhaliwyd a sylwadau a wnaed ar ran etholwyr, a chanlyniadau'r rhain.
- Prosiectau mawr – manylion unrhyw fentrau neu brosiectau lleol, sirol neu ranbarthol y bu'r aelod yn rhan ohonynt.
- Dysgu a datblygu – manylion digwyddiadau hyfforddi a datblygu a fynychwyd neu a ddilynwyd, a chynadleddau a seminarau a fynychwyd.



Adroddiad Blynyddol 2017/18

Cynghorydd XXXX

Ward XXXX



Pwrpas yr adroddiad yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn



[Gweler y ddolen](#) i wefan y Cyngor am fanylion cyfrifoldebau. Pwyllgorau a chyrff allanol rwy'n eu gwasanaethu, ynghyd a chofnod o bresenoldeb

Prif Weithgareddau Etholaethol a Chymunedol

Lorem ipsum: dolor sit amet,

aliquid menandri: recteque te mea,

pro quas quaestio consetetur et: Forensibus signiferumque pri in, no pericula

Cyfarfodydd, Seminarau a Hyfforddiant y bu i mi eu mynychu

Pwyllgorau a digwyddiadau na lwyddais i'w mynychu:

Pwyllgor XXX: oherwydd xxxx